


SIR FYNWY

MONMOUTHSHIRE



Adroddiad Blynyddol
Cynllun Llesiant Bwrdd
Gwasanaethau Cyhoeddus
Sir Fynwy 2020

MON
MOUTH
SHIRE

Cynnwys

Cynnwys.....	2
Cynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.....	3
Rhoi'r Camau Llesiant ar waith	3
Yr ymateb i Bandemig y Coronafirws	4
Gosod blaenoriaethau'r BGC.....	4
Cymhwyso'r pum ffordd o weithio	5
Amcanion Llesiant – Cynnydd hyd yma	8
Amcan Llesiant 1 - Rhoi'r dechrau gorau posib mewn bywyd i blant a phobl ifanc	8
Amcan llesiant 2 - Ymateb i'r her sy'n gysylltiedig â newid demograffig.....	11
Amcan Llesiant 3 - Amddiffyn a gwella gwytnwch ein hamgylchedd naturiol tra'n rhwystro ac addasu i effaith newid hinsawdd	14
Amcan Llesiant 4 - Datblygu cyfleoedd i gymunedau a busnesau fod yn rhan o sir sydd â chysylltiadau da ac sy'n ffynnu'n economaidd.	20
Astudiaethau Achos: Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc – Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant a phobl ifanc	23
Craffu ar Amcanion Llesiant	26
Partneriaid y BGC yn gweithio'n well gyda'u gilydd	27
Gwaith Rhanbarthol.....	35
Dyfodol Gwent.....	35
Gwent yn Barod ar gyfer yr Hinsawdd	36
Lliniaru.....	36
Addasu.....	38
Cysylltu ein Tirweddau	38
Sut mae pethau'n mynd?.....	40
Dangosyddion Cenedlaethol.....	40
Mynegai Llefydd Llewyrchus	40
Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn mesur Llesiant	41
Pandemig COVID 19 a Les.....	42
Camau Nesaf.....	48

Cynllun Llesiant y Bwrdd

Gwasanaethau Cyhoeddus

Ym mis Mai 2018, mabwysiadodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, sef partneriaeth strategol cyrff cyhoeddus Sir Fynwy, ei Gynllun Llesiant yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Fe gytunwyd ar gyd-bwrpas sef i adeiladu cymunedau cynaliadwy a chydnerth, tri dyhead trawsbynciol a fyddai'n cael eu gweithredu drwy gyfrwng yr holl amcanion a chamau, a phedwar amcan llesiant – dau sy'n ymwneud â phobl a dau sy'n ymwneud â'r lle, fel y dangosir yn y tabl canlynol:

Diben	Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy a Chydnerth	
Ein dyhead yw:	Lleihau anghydraddoldebau rhwng cymunedau ac o fewn cymunedau. Cefnogi a diogelu oedolion bregus Elwa o'r buddion y mae'r amgylchedd naturiol yn eu cynnig	
Ein Amcanion Llesiant yw:	<i>Pobl / Dinasyddion</i>	<i>Lleoedd/ Cymunedau</i>
	Rhoi'r dechrau gorau posib mewn bywyd i blant a phobl ifanc	Amddiffyn a gwella gwytnwch ein hamgylchedd naturiol tra'n rhwystro ac addasu i effaith newid hinsawdd
	Ymateb i'r her sy'n gysylltiedig â newid demograffig	Datblygu cyfleoedd i gymunedau a busnesau fod yn rhan o sir sydd â chysylltiadau da ac sy'n ffynnu'n economaidd.

Dyma'r ail adroddiad blynyddol, ac mae'n adrodd ar y cynnydd y mae'r BGC wedi ei wneud o ran cyflawni'r amcanion a osodwyd yn y Cynllun Llesiant.

Rhoi'r Camau Llesiant ar waith

Bydd y 'camau' a nodir yn y Cynllun Llesiant yn mynd i'r afael â rhai o'r prif heriau a chyfleoedd o ran llesiant yn Sir Fynwy. O ganlyniad, mae'r camau fel arfer yn gymhleth, a does dim ffordd syml na chyflym o'u cyflawni.

Yn 2018, penodwyd sefydliad partner i arwain ar bob un o'r 19 cam, ac maent wedi bod yn gyfrifol am edrych yn fanylach ar y cam, pennu cynlluniau gweithredu mwy penodol a goruchwylio cyflawni'r camau.

Ar sail y dystiolaeth a gasglwyd yn yr Asesiad Llesiant a'r Cynllun Llesiant, mae pob partner wedi bod wrthi'n datblygu ac ehangu'r sail tystiolaeth yma. Maent hefyd wedi bod yn edrych ar ddatrysiadau posib a fyddai'n mynd â ni gam yn nes tuag at gyflawni'r canlyniadau a nodir yn y cynllun. Mae'r gwaith yma wedi cynnwys cynnal gweithdai a gweithgareddau ymgysylltu gyda phartneriaid, sefydliadau a grwpiau cymunedol eraill.

Yr ymateb i Bandemig y Coronafirws

Mae pandemig y Coronafirws wedi cyflwyno her na welwyd ei thebyg o'r blaen o ran ein ffordd o fyw. Mae gwasanaethau cyhoeddus wedi bod ar flaen y gad o ran yr ymdrechion i achub bywydau ac atal lledaeniad y firws, hyn oll tra'n parhau i ddarparu cymorth hanfodol i gymunedau Sir Fynwy.

Mae firws Covid-19 yn cael effaith uniongyrchol ar iechyd pobl, ond bydd y pandemig hefyd yn cael effaith ar les economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y sir yn y tymor byr a'r tymor hir. Ond ochr yn ochr â'r heriau, bydd cyfleoedd. Er enghraifft, bydd cyfle i adeiladu werth aruthrol gwaith caled gwirfoddolwyr, ac adeiladu ar yr ysbryd cymunedol sy'n cael ei feithrin, yn aml, mewn sefyllfaoedd anodd.

Bydd y BGC yn ystyried y dystiolaeth, yr hyn a ddysgwyd, newidiadau i ddeddfwriaeth a chanllawiau diweddaraf ac yn eu defnyddio i ddeall yr effaith ar les cymunedau Sir Fynwy drwy gydol y pandemig, a bydd y Bwrdd yn addasu ei gynlluniau o ganlyniad.

Mae'r adroddiad hwn, i raddau helaeth, yn edrych yn ôl ar y cyfnod o fis Ebrill 2019 i fis Mawrth 2020, er y bydd cyfeiriad mewn rhai adrannau perthnasol at effeithiau neu wybodaeth fwy diweddar ynglŷn â phandemig Coronafirws. Bydd unrhyw ddiweddariadau pellach i Gynllun Llesiant y BGC, y mae'r adroddiad blynyddol hwn wedi ei selio arnynt, ar gael ar wefan Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy www.monmouthshire.gov.uk/our-monmouthshire/

Gosod blaenoriaethau'r BGC

Mae'n rhaid i'r weledigaeth sy'n cael ei gosod yn erbyn yr holl gamau yma amlygu'r lefel briodol o uchelgais ac eglurder er mwyn gwneud yn siŵr ei bod yn cael cefnogaeth yr holl bartneriaid.

Gofynnir i bob sefydliad ddarparu adnoddau a dangos brwdfrydedd tuag at y camau yma, ac mae'n bwysig gwneud yn siŵr eu bod yn canolbwyntio ar y pethau iawn.

Yn wreiddiol, blaenoriaethodd y BGC chwe maes y dylid canolbwyntio arnynt gan nad oedd posib i'r partneriaid weithio ar bob un o'r 19 cam ar unwaith. Mae'r penawdau fel a ganlyn: Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (PNP), iechyd meddwl plant a phobl ifanc, gwella cydnheredd ecosystemau drwy weithio ar raddfa ehangach, hyrwyddo dinasyddiaeth weithgar, ail-edrych ar ddarpariaeth a chymysgedd stoc tai a datblygu atebion sy'n seiliedig ar dechnoleg er mwyn gwella trafnidiaeth yng nghefn gwlad.

Yn 2019/20, mae gwaith ar y meysydd blaenoriaeth yma wedi parhau. Mae'r BGC wedi cadw golwg fanwl ar iechyd meddwl plant a phobl ifanc, yn enwedig yn ystod y cyfnod yma, gan fod y gwaith wedi ei alinio'n agos iawn â'r model Trawsnewid Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Glasoed o dan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent. Mae'r penderfyniad i flaenoriaethu wedi golygu nad oes cymaint o gynnydd wedi ei wneud ar rai o'r pedwar cam ar bymtheg a nodir isod.

Cymhwyso'r pum ffordd o weithio

Mae'r pum ffordd o weithio a ddisgrifir yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi parhau i gael eu defnyddio i siapio'r ffordd y caiff camau gweithredu eu datblygu.

Yr hirdymor

Wrth eu natur, mae'r camau sy'n cael eu gosod yn y Cynllun Llesiant, yn aml yn ymdrin â materion cymhleth na ellir eu datrys yn y tymor byr. Mae'r Cynllun Llesiant yn bwriadu canolbwyntio ar yr heriau tymor-hir yma tra'n sicrhau nad yw hyn yn cyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion eu hunain. Enghraifft dda o'r ffordd yma o feddwl yn hirdymor yw'r dull sy'n cael ei ddefnyddio o ran iechyd meddwl plant. Mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc wedi bod yn adolygu'r systemau sydd yn eu lle ar hyn o bryd ar draws y ddarpariaeth iechyd a darpariaeth yr awdurdod lleol er mwyn deall sut y mae gwasanaethau a chefnogaeth iechyd meddwl yn cael ei ddarparu i blant a phobl ifanc – mae sefydliadau partner yn parhau gyda'r gwaith o edrych yn fanylach ar hyn. Maent yn mapio'r ddarpariaeth sydd ar gael trwy gydol bywyd unigolyn, gan ymgorffori'r 1000 diwrnod cyntaf, sef hyd at 25 mlwydd oed. Bydd hyn yn dwyn gwybodaeth ynghyd o wahanol feysydd gwasanaeth/sefydliadau er mwyn creu 'cronoleg' o'r ymyrraeth a wneir gan wasanaethau gyda phobl ifanc er mwyn canfod ble y gellir newid gwasanaethau/arferion er mwyn gwella'r gefnogaeth, neu roi cefnogaeth yn gynt pan fydd hynny'n briodol.

Cynnwys

Mae cynnwys pobl yn allweddol er mwyn datblygu camau'r Cynllun Llesiant. Ar gyfer pob cam, mae gofyn i bartneriaid gynnwys y cyhoedd, defnyddwyr gwasanaeth a sefydliadau. Enghraifft dda o hyn yw Fforwm Ieuencid Sir Fynwy, a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2020. Roddodd y Fforwm wahoddiad i bobl ifanc o bedair ysgol uwchradd yn Sir Fynwy, yn ogystal â grwpiau eraill o bobl ifanc nad oeddent yn mynd i'r ysgol er mwyn casglu a chofnodi eu sylwadau a'u barn ar broblemau sy'n dod i'r amlwg sy'n wynebu pobl ifanc heddiw. Cyfrannodd nifer o bartneriaid y PBS yn frwd i drafodaethau'r diwrnod ar bedwar pwnc yr oedd pobl ifanc wedi eu dewis fel blaenoriaeth yn yr ymgyrch Gwneud Eich Marc. Sef Newid Hinsawdd, Iechyd Meddwl, Addysg Rhyw Fodern a Camddefnyddio Sylweddau.



Cydweithredu

Dim ond drwy gydweithio gydag eraill y gellir cyflawni nifer o gamau'r cynllun yn effeithiol. Er enghraifft, fel rhan o'r gwaith ar Drafnidiaeth Cefn Gwlad, rydym wedi gweithio ar y cyd â chwmnïau sector preifat sy'n medru cynnig opsiynau arloesol, yn ogystal â gweithio gyda'r trydydd sector.

Atal

Mae'r egwyddor atal yn rhan sylfaenol o holl gamau'r Cynllun Llesiant. Mae partneriaid wedi edrych yn fanwl ar y problemau sy'n gysylltiedig â phob cam ac wedi ceisio deall gwraidd y broblem gyda'r nod o'u hatal rhag digwydd neu geisio rhwystro'r broblem rhag mynd yn waeth. Mae'n holl bwysig bod datrysiadau'n cael eu rhoi ar waith ar yr amser iawn, a bod camau cynnar yn cael eu cymryd cyn bod trothwy argyfwng wedi ei gyrraedd. Mae'r BGC wedi treulio cryn dipyn o amser yn ceisio deall gweithrediadau a systemau sefydliadau. Nod hyn yw adnabod sut y gellir creu'r effaith a'r canlyniadau gorau i unigolion ar draws y sir drwy newid arferion.

Integreiddio

Mae'r Bwrdd Rhaglen yn grŵp o Uwch Reolwyr sy'n eistedd o dan y BGC ac yn adrodd iddo. Mae'r Bwrdd Rhaglen mewn sefyllfa dda o ran gweld sut mae camau'r amcanion llesiant yn integreiddio. Os oes unrhyw wrthdaro, gallent benderfynu ar sut i ddatrys, rheoli a lleihau effaith y gwrthdaro yma. Bydd y gwaith sy'n cael ei wneud ar gam yn cael effaith ar gamau eraill, ac mae rhai o'r camau'n cael eu symud ymlaen ar y cyd er mwyn sicrhau bod dull cydgysylltiedig yn cael ei ddefnyddio. Mae'r tabl ar y dudalen nesaf yn dangos sut y mae pob cam yn integreiddio gyda'u gilydd:

	PNP	Gordewdra	Llesiant mewn ysgolion	Iechyd Meddwl	Tai	Cenedlaethau'n cyd-fyw	Dinasyddiaeth Weithredol	Model gofal	Rhwydweithiau cefnogaeth	Gwytnwch yr ecosystem	Dylunio a Chynllunio	Deunyddiau Adnewyddadwy	Teithio Llesol / Cynaliadwy	Addysg gynaliadwyedd	Bargen Ddinesig	Cysylltiadau Busnes	Trafnidiaeth Wledig	Rhwydweithiau Busnes	Canolfannau Rhagoriaeth
PNO																			
Gordewdra																			
Llesiant mewn ysgolion																			
Iechyd Meddwl																			
Tai																			
Cenedlaethau'n cyd-fyw																			
Dinasyddiaeth Weithredol																			
Model gofal																			
Rhwydweithiau cefnogaeth																			
Gwytnwch yr ecosystem																			
Dylunio a Chynllunio																			
Deunyddiau Adnewyddadwy																			
Teithio Llesol / Cynaliadwy																			
Addysg gynaliadwyedd																			
Bargen Ddinesig																			
Cysylltiadau Busnes																			
Trafnidiaeth Wledig																			
Rhwydweithiau Busnes																			
Canolfannau Rhagoriaeth																			

Amcanion Llesiant – Cynnydd hyd yma

Caiff amcanion a chymau'r BGC eu nodi yn y tablau isod, a rhoddir manylion ar y cynnydd sydd wedi ei wneud ar bob un. Mae'r Cynllun Llesiant yn nodi mewn manylder pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd er mwyn "dod o hyd" i'r dystiolaeth ar gyfer pob amcan a "diffinio" ymateb.



Amcan Llesiant 1 - Rhoi'r dechrau gorau posib mewn bywyd i blant a phobl ifanc

Nodau Llesiant y mae'r amcan yn cyfrannu atynt

Cymru lewyrchus (1)	Cymru gydnerth (2)	Cymru iachach (3)	Cymru sy'n fwy cyfartal (4)	Cymru o gymunedau cydlynus (5)	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu (6)	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang (7)
---------------------	--------------------	-------------------	-----------------------------	--------------------------------	---	---

Mae eu hiechyd meddwl a'u hiechyd corfforol yn allweddol er mwyn eu galluogi i gyflawni eu potensial a thyfu'n oedolion iach sy'n rhan o Gymru iachach, ac mae cynyddu cyfranogaeth mewn chwaraeon yn cyfrannu at ddiwylliant bywiog hefyd. Mae'n hanfodol bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael yr un mynediad at addysg, yr un cyfleoedd ac yn cael y dechrau gorau mewn bywyd. Bydd hyn yn helpu pobl ifanc i gyfrannu tuag at eu cymunedau mewn ffordd gadarnhaol wrth iddynt ddod yn oedolion, gan helpu i ddatblygu Cymunedau Cydlynus.

Cyflawni'r atebion

Bydd y BGC yn canolbwyntio ar:	Cysylltiadau rhwng yr amcanion	Nodau	Effaith
Mynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a phroblemau sy'n parhau o genhedlaeth i genhedlaeth o fewn teuluoedd.	 	1, 3, 4, 5	Tymor Hir

Crynodeb o gynnydd:

Ni ellir edrych ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ar ben ei hun. Mae'n thema trawsbynciol sy'n berthnasol i sawl cam o fewn y Cynllun Llesiant ac mae wrth galon gwaith y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc. Mae gan bartneriaid erbyn hyn well dealltwriaeth o effaith PNP o fewn ein cymunedau ac maent yn datblygu dull gweithredu hirdymor sy'n cymryd cymhlethdod y problemau sy'n ymwneud â hyn i ystyriaeth.

Er mwyn datblygu dull gweithredu 'ymwybyddiaeth o PNP' ar draws y sir, cynhaliom weithdy gyda holl bartneriaid y BGC ym Mis Hydref 2018. Arweiniodd hyn at ddatblygu camau gweithredu clir a oedd yn canolbwyntio ar ymyrraeth ragweithiol. Mae'r camau rhain yn galluogi plant a theuluoedd i gael mynediad at gefnogaeth cwbl integredig ar draws asiantaethau/adrannau ac elwa wrth i wybodaeth gael ei rhannu'n ddi-dor.

Mae hyfforddiant PNP wedi ei ddarparu drwy'r Hwb PNP a'r Tîm Camau Cynnar drwy gydol 2019. Ochr yn ochr â hyn, gwnaed gwaith mapio a chwmpasu er mwyn nodi faint o wasanaethau cymorth i bobl ifanc a darpariaeth cymunedol sydd ar gael i bobl ifanc a'u teuluoedd. I gefnogi hyn mae gwaith tebyg yn digwydd o fewn holl ysgolion Sir Fynwy er mwyn canfod pa systemau a phrosesau sydd mewn lle er mwyn adnabod ac ymateb i bryderon ynghylch PNP. Yn benodol mae'r gwaith yn canolbwyntio ar ymddygiad plant a phobl ifanc a lles meddyliol. Nod y camau rhain yw hwyluso dyhead y BGC o sicrhau bod gan bob plentyn yn Sir Fynwy fynediad at oedolyn y gellir ymddiried ynddynt.

Mae bylchau o hyd o fewn y gwasanaethau cyhoeddus o ran ymwybyddiaeth o PNP ac o ran arferion sy'n ymwobodol o drawma. Hyd yma, mae'r pwyslais wedi bod ar y blynyddoedd cynnar. (Tai, addysg a gwasanaethau ieuencid yn cael eu cefnogi drwy hyfforddiant PNP helaeth). Mae sectorau eraill hefyd angen hyfforddiant.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Tîm Camau Cynnar yn datblygu cyfres o fesurau a dangosyddion perfformiad cyson, a fydd yn eu galluogi i fod yn fwy effeithiol o ran tracio'r cynnydd tuag at ein gôl o leihau effaith profiadau niweidiol yn ystod plentynod a pharhad problemau o un genhedlaeth i'r llall.

Gweithio er mwyn mynd i'r afael â anweithgarwch a gordewdra er mwyn gwella iechyd a lles cenedlaethau'r dyfodol



3, 5, 6

Tymor hir

Crynodeb o gynnydd:

Mae ein hymdrechion ar y cyd i fynd i'r afael â anweithgarwch a gordewdra yn ystod 2019/20 wedi eu gwreiddio yn natblygiad polisïau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Fersiwn ymgynghorol Pwysau Iach: Bu'r strategaeth Cymru Iachach yn sail i weithdy ar gyfer y bartneriaeth Creu Sir Fynwy Egniïol ac Iach. Roedd y gweithdy'n gyfle a groesawyd, nid yn unig i gyfrannu at drafodaeth genedlaethol, ond i adlewyrchu ar ddull Sir Fynwy hefyd. Croesawom gyhoeddiad y strategaeth derfynol ac rydym wedi cytuno i'w defnyddio fel fframwaith bwysig ar gyfer ein cyd-ymdrechion wrth symud ymlaen. Ar lefel ranbarthol, roedd adroddiad Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus Gwent 'Creu Gwent Iachach' eleni'n destun ymgysylltiad helaeth gyda'r cyhoedd. Cynhaliwyd sawl gweithdy y bu ymateb da iddynt o ran presenoldeb ac uchafbwynt yr ymgysylltiad oedd cynhadledd ranbarthol ym mis Tachwedd 2019.

Mae'r datblygiadau strategol cenedlaethol a rhanbarthol sylweddol yma wedi cael dylanwad mawr ar ddull gweithredu Sir Fynwy a'n penderfyniad yn lleol i ganolbwyntio ar fynd i'r afael â gordewdra drwy hyrwyddo teithio llesol ar draws y sir. Mae'r Bartneriaeth Creu Sir Fynwy Egniïol a Iach wedi cytuno ar ffocws strategol ar gyfer teithio llesol yn Sir Fynwy sy'n ymwneud ag Addysg, Safleoedd Cyflogaeth Allweddol (gan gynnwys canol trefi) a Gorsafoedd Bws/Trên. O fewn Cyngor Sir Fynwy, daw hyn law yn llaw â strwythur newydd swyddogion cyflawni sy'n cydnabod pwysigrwydd datblygu ymddygiad yn ogystal â seilwaith cefnogol.

Ochr yn ochr â'r pwyslais newydd ar deithio llesol, rydym wedi parhau i gyflawni ein rhaglenni datblygu chwaraeon, bwyta'n iach a hybu iechyd mewn ysgolion drwy gyfrwng ein rhaglenni cymorth Dechrau'n Deg a Blynyddoedd Cynnar. Rydym hefyd yn gweithio ochr yn ochr â phartneriaid i hybu gweithgaredd gorfforol drwy chwarae gan gynnwys hybu a chefnogi chwarae ar ffyrdd wedi cau a Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf.

Gweithio i wneud yn siŵr bod ysgolion a gwasanaethau plant yn canolbwyntio ar les ac yn defnyddio ddull sy'n canolbwyntio ar lawer mwy na chanlyniadau academiaidd yn unig.



1, 3, 4

Tymor Canolig

Crynodeb o gynnydd:

Cymerodd tair o bedair ysgol uwchradd y sir ran mewn rhaglen llythrennedd iechyd meddwl a oedd yn ceisio helpu myfyrwyr blwyddyn 9 a'u hathrawon i wella eu gwybodaeth ynglŷn â iechyd meddwl, lleihau stigma a chynyddu ymddygiad hunan-gymorth. Datblygwyd y gwaith yma gan Gweithredu dros Blant ac fe'i rhedwyd gan Brifysgol Abertawe.

Mae hyfforddiant DYEG (Datblygu Ymwybyddiaeth Emosiynol a Gwrando) y Samariaid wedi ei roi i ysgolion uwchradd. Mae hwn yn adnodd dysgu rhad ac am ddim ar gyfer pobl ifanc 14 oed ac hyn. Cynhaliwyd gweithdai cadernid 'Positively Mad' i ddisgyblion blwyddyn 11, law yn llaw â gwaith mewn grwpiau llai a sesiynau galw i mewn ar reoli gorbryder o ran arholiadau a chynyddu cydnheredd.

Cymerodd bob ysgol ran yn yr archwiliad lles yn 2019/20. Isod mae casgliadau'r adroddiad: *'Crybnyllhwyd dros 50 o wahanol raglenni/ymyriadau/asiantaethau cymorth gan yr ysgolion. Roedd y rhain oll yn cael eu darparu i raddau amrywiol o fewn yr ysgolion. Mae ysgolion yn gwneud cysylltiadau gyda sefydliadau arbenigol er mwyn mynd i'r afael â phroblemau penodol o fewn yr ysgolion. Mae'r ysgolion wedi siarad am hyfforddi Cynorthwyyr Addysgu i redeg rhaglenni cefnogaeth wedi'u targedu megis ELSA a Therapi Thrive and Lego. Mae ysgolion yn ceisio gweithredu ar sail dull sy'n canolbwyntio ar yr ysgol gyfan o ran lles a dod yn ymmybodol o PNP. Yn aml, Llwyddiad PNP yr ysgol sydd befyd yn arwain ar Les. Mae ysgolion wedi trafod defnyddio rhaglenni fel Thrive, SEAL a Growth Minset fel sail i holl weithgaredd yr ysgol. Mae rhai ysgolion yn cynnal dros 20 o weithgareddau sy'n ymwneud â lles, ac mae eraill sy'n canolbwyntio ar ddau neu dri peth sydd wedi eu hymgorffori'n llwyr yn yr ysgol.'*

Mae ysgolion Sir Fynwy'n parhau i weithio mewn ffordd aml-asiantaeth ac aml-ddisgyblaeth er mwyn sicrhau lles yr holl blant a phobl ifanc, gan edrych ar y meysydd gwaith trawsbynciol o dan y cynllun llesiant.

Cefnogi cadernid plant a phobl ifanc mewn perthynas â'u hiechyd meddwl a'u lles emosiynol.



3, 4

Tymor Byr

Crynodeb o gynnydd:

Mae gwaith wedi cael ei wneud ar draws y ddarpariaeth iechyd ac awdurdod lleol er mwyn deall sut y caiff gwasanaethau a chefnogaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ei ddarparu ar hyn o bryd. **Mae'r ddarpariaeth sydd ar gael trwy gydol bywyd unigolyn wedi ei fapio, gan ymgorffori'r 1000 diwrnod cyntaf, sef rhwng 16 oed hyd at 25 mlwydd oed.**

Mae partneriaid wedi creu '**cronoleg**' o'r ymyrraeth a wneir gan wasanaethau gyda phobl ifanc er mwyn canfod ble y gellir newid arferion er mwyn gwella'r gefnogaeth, neu roi cefnogaeth yn gynt pan fydd hynny'n briodol.

Mae'r gwaith hwn wedi ei alinio i'r gwaith ar iechyd meddwl a chadernid emosiynol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Model Trawsnewid Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Glasoed, gan fynd â hyn i'r gymuned drwy ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar seicoleg gymunedol.

Mae partneriaid arweiniol y BGC yn edrych yn fanylach ar brosiect peilot a fyddai'n creu canolfan integredig ar gyfer plant a theuluoedd.



Amcan Llesiant 2 - Ymateb i'r her sy'n gysylltiedig â newid demograffig

Nodau Llesiant y mae'r amcan yn cyfrannu atynt

Cymru lewyrchus (1)	Cymru gydnerth (2)	Cymru iachach (3)	Cymru sy'n fwy cyfartal (4)	Cymru o gymunedau cydlynus (5)	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu (6)	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang (7)
---------------------	--------------------	-------------------	-----------------------------	--------------------------------	---	---

Er mwyn creu cymunedau cydlynus sy'n rhoi cyfleoedd cyfartal i bobl o bob oed fyw a gweithio yn Sir Fynwy, mae'n hanfodol bod tai addas a fforddiadwy ar gyfer pawb ar gael. Bydd gan gymuned gydlynus gyfleusterau i ofalu am bobl o bob oed. Er bod cyflogaeth yn allweddol i Gymru lewyrchus, mae gan gwirfoddoli a dinasyddiaeth weithredol rôl allweddol i'w chwarae o ran adeiladu cymunedau a gwella iechyd.

Gweithio tuag at y ateb

Nodau	Nodau	Nodau	Nodau
Ail edrych ar y ddarpariaeth o dai a'r math o stoc sydd ar gael er mwyn gwneud yn siŵr bod tai addas a fforddiadwy ar gael i bob grŵp demograffeg	  	1, 3, 4, 5	Tymor Hir

Crynodeb o gynnydd:

Bu i ni adeiladu cyfanswm o 356 cartref yn 2019-20, 82 (23%) o'r rheiny'n dai fforddiadwy. Gwnaed hyn o fewn fframwaith y Cynllun Datblygu Lleol presennol.

Mae datblygiadau eraill yn cynnwys cymeradwyo prosiectau tai arloesol yng Nghil-y-coed a Casgwent a ariannwyd, yn rhannol, gan Lywodraeth Cymru, datblygiad sy'n deall dementia yn ardal Porthsgiwed/Cil-y-coed sy'n darparu 68 uned tai fforddiadwy a chartref gofal 32 gwely a chymeradwyo cynllun ar gyfer 130 cartref yng Nghil-y-coed gyda 45 o'r unedau'n rhai fforddiadwy.

O ran camau nesaf, bydd trafodaethau'n parhau gyda datblygwyr ar safleoedd posib i'w cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN). Y prif ystyriaethau fydd tai fforddiadwy, cymysgedd o dai a lliniaru effaith newid hinsawdd. Bydd cymunedau lleol yn chwarae rhan yn natblygiad y strategaeth a ffafirir er mwyn gwneud yn siŵr bod eu hadborth a'u gwybodaeth yn cael ei adlewyrchu yn y datblygiadau arfaethedig a bod yr hyn y mae cymunedau ei eisiau yn cael ei ymgorffori yn y cynigion.

Mae Cyngor Sir Fynwy wedi ail ymweld â'r strategaeth yr oeddynt yn ei ffafrio ac mae'r cabinet wedi cytuno bod gweledigaeth, problemau ac amcanion y CDLIN yn gywir. Mae rhai elfennau penodol wedi eu codi sydd angen sylw pellach o hyd, megis yr economi a chyflogaeth a'r angen am dai addas a gwarchod ein strydoedd mawr.

Ar hyn o bryd rydym yn datblygu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd a bydd yn darparu'r fframwaith cynllunio lleol a fydd yn cael ei ddefnyddio i greu tai fforddiadwy o fewn y sir. Mae ymgynghoriad wedi cychwyn ar y strategaeth y mae'r Cyngor yn ei ffafrio. Bydd y strategaeth yn arwain at dwf

cynaliadwy o rhwng 7,483 a 8,232 o dai o fewn Sir Fynwy. Bydd 2115 o'r rheiny'n dai fforddiadwy a bydd 824 ohonynt yn dai canolradd a thai perchentyaeth cost isel.

Bydd un elfen ar y strategaeth yn darparu safleoedd a fydd yn gartref i 50% o dai fforddiadwy a fydd ar gael i grwpiau o bob demograffeg. Bydd y math o dai fforddiadwy a fydd yn cael eu hadeiladu ar y safleoedd yn cael eu hamlinellu gan swyddogion tai fforddiadwy y cyngor a byddant yn seiliedig ar yr angen o fewn yr ardal. Wrth ddatblygu'r CDLIN, rydym hefyd yn adolygu'r math o gartrefi y mae'r cyngor yn ceisio eu darparu o fewn y farchnad breifat er mwyn ein galluogi i gynnig amrywiaeth o opsiynau tai ar gyfer bob oed, gan gynnwys tai cychwynnol un a dwy lofft, cartrefi teulu a mathau o fyngalos. Mae trafodaethau'n parhau ar ddatblygu fframwaith polisi fel modd o gyrraedd yr uchelgais yma

Dysgu o ymarfer da mewn mannau eraill er mwyn edrych ar sut y gall y gwahanol genedlaethau fyw ochor yn ochor, nawr ac yn y dyfodol



4, 5

Tymor Canolig

Crynodeb o gynnydd:

Mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar dri maes:

- Datblygu Cymunedol: creu'r amodau; pobl yn dod o hyd i'w atebion eu hunain
- Rhannu tai: treialu atebion yn seiliedig ar rannu tai
- Adeiladu tai ar gyfer bob oed: siapio'r amgylchedd adeiladu a chreu lleoedd y gall pobl o bob cenedlaeth ddod ynghyd ynddynt.

Mae gwaith datblygu cymunedol wedi nodi pwysigrwydd herio pegynnu cenedlaethau. Bydd hyn yn cynnwys comisiynu ymchwil i mewn i 'newid diwylliannol' er mwyn ailnegodi'r cytundeb rhwng y bobl hŷn a'r bobl ifanc ac ymchwilio i fodelau arfer gorau.

Bydd gwaith pellach ei angen fel rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol er mwyn dod o hyd i gyfleoedd i arloesi o ran datblygu tai er mwyn creu cymunedau sydd â chymysgedd o bob oed sy'n cefnogi eu gilydd. Y darn arall o waith newydd yw treialu cynllun rhannu cartref yn Sir Fynwy, a rhoi'r cynllun ar brawf yng nghefn gwlad.

Hybu dinasyddiaeth weithredol drwy wirfoddoli, bancio-amser, unigolion yn cyfnewid sgiliau a chyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol



1, 3, 5

Tymor Byr

Crynodeb o gynnydd:

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi ymchwilio, ymgysylltu ac adeiladu platfform sy'n ein galluogi i gymryd camau wedi eu targedu yn y dyfodol agos. Mae ymgysylltiad parhaus gyda'r grwp partneriaeth Cydgysylltu Gwirfoddoli wedi sicrhau y gellir cymryd y cam hwn a llunio'r cynllun gweithredu cysylltiol a fydd yn perthyn i'r partneriaid ac yn cael ei siapio ganddynt.

Cynhaliodd Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent a Chyngor Sir Fynwy ddigwyddiad ym mis Mawrth 2020, a ddaeth a gwirfoddolwyr, grwpiau cymunedol a sefydliadau ynghyd er mwyn canolbwyntio ar y cam llesiant sy'n ymwneud â dinasyddiaeth weithgar. Daeth cant tri deg o bobl i'r digwyddiad, bu iddynt edrych yn fanylach ar egwyddorion dinasyddiaeth weithgar yn Sir Fynwy a'u herio. Bu modd i ni ddefnyddio'r digwyddiad i flaenoriaethu'r hyn sy'n bwysig i bobl, yn ogystal â dod â hwy ynghyd ar agweddau ar y cam sydd o bwys iddynt. Erbyn hyn, mae modd i ni ddod

â'r bobl iawn at eu gilydd, pobl frwd, sydd â diddordeb mewn gwneud gwahaniaeth mewn cymunedau ym mhob cwr o'r sir.

Yn dilyn ein hymgysylltiad gyda'r holl bartneriaid a chymeradwyaeth gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, rydym wedi cyflwyno ein platfform rhwydweithio cymunedol - Ein Sir Fynwy. Mae Ein Sir Fynwy'n cynnig yr adnoddau digidol sydd eu hangen ar ddinasyddion gweithgar er mwyn iddynt allu cefnogi eu gilydd yn eu cymunedau, creu cysylltiadau at ddibenion penodol a chynnig swyddogaeth bancio amser un i un diogel. Mae partneriaid y BGC yn cefnogi datblygiad y platfform a gobeithir y bydd yn cael ei arwain gan y gymuned.

Datblygu model gofal sydd wedi ei adeiladu ar les a gofalu am ein gilydd yn hytrach nag ar ddarpariaeth gofal ffurfiol	 	3, 4, 5	Tymor Canolig
Datblygu rhwydweithiau, ar gyfer pobl o bob oed, sy'n cefnogi llesiant o fewn eu cymunedau lleol, gan gynnwys presgripsiynu cymdeithasol (gweler eglurhad uchod)	  	1, 3, 4, 5	Tymor Byr

Crynodeb o gynnydd:

Mae'r camau uchod wedi parhau i weithio ochr yn ochr gan fod y gwaith wedi bod yn drawsbynciol ar draws y sir. Mae partneriaid wedi parhau i gydweithio ar adnoddau lles mewn lleoedd penodol er mwyn gweithio gyda chymunedau ac unigolion i adnabod yr "hyn sy'n bwysig iddynt". Maent yn symud i ffwrdd oddi wrth un ateb sy'n addas i bawb o ran gwasanaethau at atebion unigol sy'n galluogi pobl i adeiladu ar eu cryfderau unigol.

Rydym wedi canolbwyntio ar weithio gyda dinasyddion Sir Fynwy er mwyn eu helpu i greu rhwydweithiau a pherthnasau, lleihau ynysigrwydd ac unigrwydd a chreu cymunedau sy'n fwy cysylltiedig ac sy'n gefn i'w gilydd. Byddwn yn helpu pobl i adnabod yr hyn y gallant ei wneud a'r hyn y maent eisiau ei wneud, gan beidio â chanolbwyntio ar yr hyn na allant ei wneud. Bydd gan bobl fwy o ddewis a mwy o reolaeth o ran y gefnogaeth sydd ar gael i'w helpu i gyflawni eu canlyniadau lles.

Mae'r gwaith hefyd yn ceisio galluogi pobl i wneud penderfyniadau ar gymorth o ran lles fel partner cyfartal a gwneud yn siŵr bod cysylltiad ganddynt gyda chymorth cymunedol ac ymyrraeth mewn un lle ar draws y sir.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu gwell rhwydweithiau gofal cydgysylltiedig, yn dilyn llwyddiant y model oedolion o fewn y sir. Bydd hyn yn cael ei wneud drwy ddiweddarau'r rhwydwaith Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar leoedd ar draws y sir, gan dynnu ar gamau llesiant eraill megis dinasyddiaeth weithgar, lles ysgolion ac edrych ar y gwaith drwy lygad PNP a lles meddyliol wrth iddo ddatblygu.

Mae ymyrraeth gynnar ar gyfer plant a theuluoedd yn fodd o atal yr angen rhag cynyddu drwy sicrhau bod y cymorth sydd ei angen ar gael ar yr adeg iawn, mor agos â phosibl i'r cartref. Dyma'r uchelgais ym mhob cwr o Sir Fynwy.



Amcan Llesiant 3 - Amddiffyn a gwella gwytnwch ein hamgylchedd naturiol tra'n rhwystro ac addasu i effaith newid hinsawdd

Nodau Llesiant y mae'r amcan yn cyfrannu atynt

Cymru lewyrchus (1)	Cymru gydnerth (2)	Cymru iachach (3)	Cymru sy'n fwy cyfartal (4)	Cymru o gymunedau cydlynus (5)	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu (6)	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang (7)
---------------------	--------------------	-------------------	-----------------------------	--------------------------------	---	---

Yn ogystal â bod yn allweddol o ran llesiant amgylcheddol, mae Amgylchedd Gydnerth yn hanfodol i'r economi leol, i iechyd meddyliol a chorfforol ac i adeiladu cymunedau cydlynus. Er mwyn bod yn gyfrifol ar lefel fyd-eang, mae angen i ni weithio gyda'n gilydd i leihau'r carbon a'r llygredd yr ydym yn ei greu drwy fynd i'r afael â thrafnidiaeth gynaliadwy a newid y ffordd yr ydym yn defnyddio a chreu ynni. Elfen allweddol o'r amcan yma yw gweithio gyda phlant a phobl ifanc i'w helpu i ddeall eu rôl o ran edrych ar ôl ein hamgylchedd, lleihau yr effaith yr ydym yn ei gael ar yr amgylchedd a sylweddoli pwysigrwydd “meddwl ar lefel fyd-eang ac ymddwyn ar lefel leol”.

Cyflawni'r atebion

Bydd y BGC yn canolbwyntio ar:	Cysylltiadau rhwng yr amcanion	Nodau	Effaith
Gwella gwydnwch yr ecosystemau drwy weithio ar raddfa ehangach (tirlun) i reoli bioamrywiaeth a manteisio i'r eithaf ar fuddiannau megis rheoli llifogydd yn naturiol		1, 2, 3	Tymor Hir

Crynodeb o gynnydd:

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru bellach wedi cyhoeddi Datganiad Ardal ar gyfer y De Ddwyrain sy'n cwmpasu Gwent, ac felly Sir Fynwy.

Mae'r pum awdurdod lleol yng Ngwent wedi cael eu gwobrwyo â chyllid grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Lles gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiect rhanbarthol Gwent Fwyaf Cydnerth. Mae'r prosiect yn bartneriaeth rhwng holl awdurdodau lleol Gwent, CNC, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent, Buglife, Canolfan Cofnodi Bioamrywiaeth De-ddwyrain Cymru, Technical Ecology a phartneriaid eraill ar draws Gwent Fwyaf.

Camau a gymerwyd yn 2019/20:

- Mae cynnydd wedi ei wneud o ran ymuno â Datganiad Ardal De Ddwyrain Cymru a chynnydd o ran y llif gwaith ar Rwydweithiau Ecolegol Cydnerth.

- Yn 2019 mae'r is-brosiect ar Rywogaethau Estron wedi cwblhau tymor llawn o driniaethau ar draws Gwent Fwyaf ac ardaloedd Awdurdodau Lleol dalgylch yr Afon Tâf.
- Mae is-brosiectau Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol, Tipiau Glo, Bioamrywiaeth Trefol ac Afonydd yng Ngwent wedi bod yn gwneud gwaith desg er mwyn paratoi at dymor 2020 a'r camau gweithredu a fydd yn cael eu cymryd.
- Cyflwynwyd prosiect cysylltiol ar y thema Gwent sy'n barod am yr hinsawdd i rownd ddiweddaraf ceisiadau am gyllid Galluogi Adnoddau Naturiol a Lles, gyda Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent yn arwain.
- Mae'r Adroddiad Sefyllfa Byd Natur Gwent yn cael ei lunio yn dilyn gaeaf o waith penodol ar ddadansoddi data. Y cam nesaf fydd creu Cynllun Adfer Natur Gwent Fwyaf ar gyfer 2020-2030.

Mae CNC yn comisiynu nifer o brosiectau o fewn Sir Fynwy:

- Astudiaeth Dichonoldeb ar Ddulliau Rheoli Llifogydd yn Naturiol yn Nalgylch Olway, Brynbuga. Edrych ar raddfa'r dalgylch, asesu mathau o asedau a lleoliadau ar hyn o bryd a fydd yn creu buddion niferus- Risg o Lifogydd a chreu ecosystem (bioamrywiaeth, cynefin).
- Cynllun Adfer Afon ar gyfer Afon Gavenny. Amcanion lluosog gan gynnwys rhoi Statws Ecolegol Da i'r afon unwaith eto, lleihau'r risg o lifogydd i dref y Fenni a gwella cydnerthedd yr ecosystem. Ymgymryd ag astudiaeth dichonoldeb ar hyn o bryd.
- Gorlifdir Cydnerth Gwent. Asesiad desg er mwyn penderfynu ym mha ardaloedd y gellir adfer neu greu cynefin gorlifdir.

Mae swyddogion sy'n gweithio i bum Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent yn gyfrifol am Bartneriaeth Grid Gwyrdd Gwent . Diben y bartneriaeth yw hwyluso cydweithredu rhanbarthol er mwyn gwneud y gorau o asedau naturiol Gwent a'r buddion pellgyrhaeddol y maent yn eu creu i'r cymunedau. Mae'r camau gweithredu a gymerwyd yn 19/20 yn cynnwys:

- Cyflwyno bid Galluogi Adnoddau a Lles i Lywodraeth Cymru er mwyn ariannu Prosiect Grid Gwyrdd Gwent sy'n cynnwys sawl elfen gan gynnwys Gwent sy'n Deall Pryfaid Peillio.

Sicrhau bod polisi dylunio a chynllunio'n cefnogi cymunedau cryf, bywiog a iach sy'n gwneud lles i bobl a'r amgylchedd



1, 2, 3, 5, 7

Long Term

Crynodeb o gynnydd:

Mae creu lleoedd a seilwaith gwyrdd yn cael sylw amlwg wrth adolygu safleoedd yn unol â Polisi Cynllunio Cymru (ed10) (PCC). Mae swyddogion wedi datblygu strwythur adrodd sydd wedi ei selio ar PCC, ac mae'n rhoi ystyriaeth lawn i deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym yn creu fframwaith polisi cynllunio a fydd yn canolbwyntio ar adeiladu tai cynaliadwy, cyflogaeth (tua 4695 o swyddi) ac sy'n cymryd newid hinsawdd i ystyriaeth. Mae ymgynghoriad yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ar y strategaeth a ffafrir. Mae trafodaethau'n parhau gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB) ar sut y bydd y CDLlN yn effeithio ar y seilwaith iechyd er mwyn sicrhau bod datblygiadau arfaethedig yn gynaliadwy.

Datblygu canllawiau cynllunio atodol ar Adran 106 a fydd yn sicrhau bod y seilwaith priodol yn ei le ar gyfer datblygiadau arfaethedig. Mabwysiadwyd y Strategaeth Seilwaith Gwyrdd ym mis Rhagfyr 2019 a chyhoeddwyd y Datganiadau Ardal ym mis Mawrth 2020. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy wedi lleisio pryder ynglŷn â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol y bu ymgynghoriad arno y llynedd o ran goblygiadau neilltuo belt gwyrdd o fewn yr

ardal a'r diffyg uchelgais posibl o fewn y fframwaith polisi ar gyfer rhanbarth De Ddwyrain Cymru. Mae gwaith yn mynd rhagddo i nodi gofynion tir ar gyfer cyflogaeth sy'n cyd fynd ag uchelgais economaidd y cyngor i wneud yn siŵr bod gennym y tir priodol yn y llefydd priodol i'n galluogi i greu swyddi.

Mae'r gwaith ar yr astudiaeth Tirwedd wedi ei gwblhau a bydd yn cael ei gyhoeddi cyn hir. Yn yr un modd mae gwaith wedi cychwyn ar ynni adnewyddol ac mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen. Bydd gwaith ar adolygiad lletem las yn cael ei wneud, a bydd gwaith, hefyd, yn cychwyn yn ystod 2020/21 ar y Cynllun Trafnidiaeth Lleol. Mae llwybrau teithio llesol yn cael eu cwmpasu ar hyn o bryd, ac mae llwybrau i ysgolion a safleoedd cyflogaeth yn cael blaenoriaeth.

Galluogi cynlluniau ynni adnewyddol, yn enwedig cynlluniau y mae cymunedau'n gyfrifol amdanynt, a datblygu atebion gan gynnwys dulliau storio, ynni craff, gwres a chyflenwad lleol.



1, 5, 7

Tymor Byr

Crynodeb o gynnydd:

Mae cyllid yn ei le ar gyfer ymgymryd â gwaith mapio ynni ac astudiaeth modelu o ardal Dyffryn Wysg. Bydd y gwaith yn nodi llwythi galw gwresogi, oeri a phŵer a allai fod yn ddefnyddiol. Bydd y gwaith hefyd yn nodi cyfleon defnyddiol o ran cyflenwad gwres ar gyfer datblygiad cynllun ynni rhanbarthol, a fydd yn sail i uwch gynllun. Mae ymgynghorwyr wedi cael eu penodi i wneud yr astudiaeth. Cychwynnodd y gwaith ar y 1af o Fehefin 2020 a disgwylir iddo gymryd tri mis.

Mae nifer o safleoedd datblygu posib ar gyfer ynni solar wedi cael eu nodi, ac mae'r Ymddiriedolaeth Garbon wedi drafftio cam cychwynnol yr Asesiad Ynni Adnewyddol er mwyn i'r sir allu canfod ardaloedd chwilio o ran ynni adnewyddol. Mae gwaith rhanbarthol yn mynd rhagddo o ran cerbydau sy'n rhedeg ar hydrogen.

Nododd y BGC yr angen i'r holl bartneriaid fod yn fwy uchelgeisiol a dangos pa waith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd i liniaru ac addasu i newid hinsawdd yn dilyn datgan Argyfwng Hinsawdd o fewn Sir Fynwy. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi comisiynu JBA Consulting i ymgymryd â'r adolygiad yma, er mwyn ein helpu i ddeall y camau pellach y gall partneriaid y BGC eu cymryd ar y cyd a fydd yn creu'r budd mwyaf. Bydd hyn yn fodd o yrru gweithgarwch a chanlyniadau ar lefel leol.

Bydd cwmpas y prosiect hwn yn canolbwyntio ar fentrau a fydd yn rhoi sylw i'r argyfwng hinsawdd, lleihau allyriadau carbon, gwella effeithiolrwydd adnoddau a lleihau ôl troed amgylcheddol sefydliadau/y BGC. Byddwn yn edrych mewn mwy o fanylder ar agweddau penodol allweddol o ddulliau partneriaid y BGC o ran rheoli amgylcheddol y mae gan y BGC reolaeth uniongyrchol drostynt ac a allai ychwanegu gwerth wrth i'r partneriaid gydweithio'n well, rhannu gwybodaeth a thargeddu meysydd penodol, gan edrych yn fanwl ar y canlynol:

- Fflyd
- Adeiladau
- Tir
- Caffael (llai manwl)

Bydd yr uchod digwydd yng Ngham 1. Bydd y cam yn cychwyn yn 2020 ac yn parhau yn 2021. Mae'n bosib y bydd cam/camau pellach yn dilyn a bydd y cwmpas yn cael ei ehangu er mwyn

cynnwys meysydd eraill o fewn y sefydliadau ac edrych ar gyfleoedd a allai godi gyda phartneriaid allanol y BGC.			
Galluogi teithio llesol a thrafnidiaeth gynaliadwy i wella ansawdd yr aer a chreu manteision eraill o ran iechyd.	  	1, 5, 6, 7	Tymor Canolig
Crynodeb o gynnydd: Mae Teithio Llesol yn canolbwyntio ar sicrhau bod y seilwaith cywir yn ei le er mwyn annog pobl i gerdded a beicio mwy i leoliadau allweddol megis ar gyfer addysg neu waith a gwella cyfleusterau megis raciau beic. Mae swyddog Teithio Llesol wedi eu penodi ac mae cais am gyllid o £2.5m wedi ei wneud i Lywodraeth Cymru ar gyfer Teithio Llesol. Mae bidiau hefyd wedi eu cyflwyno er mwyn cefnogi ail agor Canol Trefi yn dilyn COVID-19. Ein nod yw gwella'r seilwaith presennol ar draws y 7 ardal sydd wedi eu cynnwys ar ein mapiau Rhwydwaith Integredig (Y Fenni, Trefynwy, Cil-y-coed, Cas-gwent, Gilwern, Brynbuga a Magwyr). Pe byddai Llywodraeth Cymru'n caniatáu, bydd mwy o fidiau'n cael eu cyflwyno ar gyfer ardaloedd o amgylch yr anheddiadau rhain. Rydym hefyd wedi: - Datblygu gwefan sy'n rhoi mwy o wybodaeth. Bydd cwestiynau digidol hefyd yn cael eu gofyn ar y wefan - www.monmouthshire.gov.uk/monmouthshire-active-travel - Gosod Ffocws Strategol ar gyfer Teithio Llesol yn Sir Fynwy sy'n ymwneud ag Addysg, Safleoedd Cyflogaeth Allweddol (gan gynnwys canol trefi) a Gorsafoedd Bws/Trên. - Llunio Cynllun Cyflenwi Teithio Llesol er mwyn monitro ac adolygu perfformiad, gan gynnwys dangosyddion allweddol Mae Sir Fynwy hefyd wedi chwarae rhan mewn gwaith rhanbarthol sy'n ymwneud â thrafnidiaeth gynaliadwy drwy'r prosiectau canlynol: - Seilwaith Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan. Mae pum Awdurdod Lleol Gwent wedi cael cyfran o £422,000 gan y Swyddfa Cerbydau Allyriadau Isel er mwyn gosod cyfanswm o 65 pwynt gwefru cyflym mewn 34 safle yn y rhanbarth. Cychwynnodd y gwaith o osod y seilwaith Gwefru Ceir Trydan ar ddechrau 2020. - Fflyd Cerbydau Trydan: Mae adolygiadau o Fflyd y Sector Gyhoeddus wedi canfod pa gerbydau a allai gael eu cyfnewid am fflyd trydan ar draws partneriaeth y BGC. - Fflyd Cerbydau a redir gan Hydrogen a Seilwaith Gwefru: Gwnaed astudiaeth er mwyn gwneud yn siŵr bod ardal Gwent yn llwyr ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael o ran hydrogen. Edrychodd yr astudiaeth ar y posibilïadau o ran cerbydau sy'n rhedeg ar hydrogen a seilwaith ar draws y rhanbarth gan ganolbwyntio ar fflydoeddy BGC. Mae Cyngor Sir Fynwy'n treialu cerbydau hydrogen gyda Riversimple			
Gweithio gyda phlant a phobl ifanc i godi eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth, eu hannog i gyfrannu mwy at ddatblygiad cynaliadwy a'u gwneud yn ddinasyddion byd-eang cyfrifol at y dyfodol.		1, 2, 3, 4, 5, 6, 7	Tymor Hir

Crynodeb o gynnydd:

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, gan weithio gyda phartneriaid eraill o fewn y BGC, wedi parhau i wneud gwaith gyda phobl ifanc drwy amrywiaeth o fentrau a rhaglenni. Mae'r rhaglenni yma'n gobeithio ehangu cwmplas y gwaith drwy alinio'r camau eraill o dan yr amcan yma er mwyn rhoi'r dechrau gorau posibl i bobl ifanc mewn bywyd. Mae'r gwaith yn y camau datblygu ar hyn o bryd a bydd yn parhau yn ystod 2020/21. Isod mae rhai o'r rhaglenni a gyflawnwyd yn ystod 2019/20:

- Sgyrsiau mewn Ysgolion: Bu i'n Tîm Diogelwch Cymunedol ymweld ag ysgolion gan ddod â disgyblion ynghyd ar gyfer cyfarfodydd arbennig. Yn aml roeddynt yn gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau eraill megis yr Heddlu. Cynnwys gwaith ar dannau glaswellt ac Ymgyrch BANG (Tân gwyllt a choelcerthi)
- Prosiect Phoenix: 5 diwrnod o ymyrraeth ieuenctid gan ddefnyddio gweithgareddau'n ymwneud â thân. Nod y prosiect oedd rhoi sylw i broblemau pobl ifanc (rhwng 11 a 25 oed) megis diffyg hunan barch a diffyg hyder neu ymddygiad gwrthgymdeithasol ac/neu broblemau'n ymwneud â thân – Gweithio gydag Unedau Atgyfeirio Disgyblion, y Gwasanaeth Prawf a Darparwyr Addysg Amgen. Gall pobl ifanc hefyd **ennill Cymhwyster Agored**.
- Prosiect Troseddau a Chanlyniadau: Ymladdwr Tân am ddiwrnod neu gweithdai unigol awr o hyd sy'n darparu addysg er mwyn lleihau tebygolrwydd pobl ifanc o fod yn rhan o ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddol – Gweithio gydag Unedau Atgyfeirio Disgyblion, y Gwasanaeth Prawf, a Darparwyr Addysg Amgen ac ati.
- Cynllun Cadetiaid Tân Mudiad Ieuenctid mewn lifrau. Mae un uned o 20 Cadét ar gyfer pob Awdurdod Unedol ar draws De Cymru. Mae'r Cadetiaid Tân yn canolbwyntio'n bennaf ar wella sgiliau dinasyddiaeth allweddol a chynyddu hyder tra'n datblygu sgiliau ymarferol y gellir eu defnyddio yn y dyfodol ar gyfer hyfforddiant neu gyflogaeth. Dyma raglen 2 flynedd sy'n galluogi cadetiaid i gyrraedd Gwobr BTEC Lefel 2 mewn Gwasanaethau Tân ac Achub yn y Gymuned. Caiff y wobwr ei chydabod ar lefel genedlaethol. Gall y cadetiaid wneud cais i aros am dair blynedd fel rhan o'n Rhaglen Llysgennad Cadetiaid. Mae proses ddethol lawn ar gyfer hyn.
- Cynllun Ymyriadau Cychwyn Tannau: Mae' prosiect yn cynnig gwasanaethau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd ac i unrhyw asiantaeth a allai ymwneud ag achos os oes pryder ynglŷn â phlentyn neu berson ifanc sy'n cychwyn tannau. Mae 3 lefel o ymyrraeth: Ymweliadau â'r cartref, Y Rhaglen Ddiogelwch, y Rhaglen Ddiogelwch Tân
- Diogelwch y ffyrdd: Sgyrsiau ac addysg benodol a ddarperir i Golegau ac hefyd drwy'r darparwyr Addysg Amgen. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar yrwyr ifanc.
- Cynllun Gwirfoddolwyr GTADC Diben y cynllun yw datblygu perthnasau o fewn y cymunedau yr ydym yn byw ac yn gweithio ynddynt. Mae cysylltiad rhwng y cynllun a'r cam sy'n ymwneud â rhwydweithiau gofal ar gyfer plant a theuluoedd. Mae'r cynllun yn roi cyfle i unigolion wneud cyfraniad gwerthfawr i ddiogelwch eu cymunedau. Mae'r cynllun hefyd yn rhoi sgiliau, gwybodaeth ac adnoddau ychwanegol i'n gwasanaeth.

Mae gwaith pellach sydd wedi ei wneud gan bartneriaid y BGC sy'n canolbwyntio ar ddinasyddiaeth fyd-eang yn cynnwys:

- Cynhadledd Masnach Deg i Ysgolion a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2020. Daeth 60 disgybl a 18 o athrawon o 18 ysgol i'r gynhadledd a chlywsant gan dyfwr coffi o Uganda a chymerwyd rhan mewn nifer o weithgareddau'n ymwneud â Masnach Deg.
- Gwaith parhaus ar gefnogi ysgolion o ran eu gwaith Eco-Ysgolion a Masnach Deg.

- Mae llawer o ddefnydd yn cael ei wneud o Ganolfan Un Blaned Llanfoist gan ysgolion lleol a thu hwnt, staff newydd MCC, grwpiau megis y Sgowtiaid a Sefydliad y Merched ac eraill. Nod yr ymweliadau yw dysgu mwy am newid hinsawdd.



Amcan Llesiant 4 - Datblygu cyfleoedd i gymunedau a busnesau fod yn rhan o sir sydd â chysylltiadau da ac sy'n ffynnu'n economaidd.

Nodau Llesiant y mae'r amcan yn cyfrannu atynt

Cymru lewyrchus (1)	Cymru gydnherth (2)	Cymru iachach (3)	Cymru sy'n fwy cyfartal (4)	Cymru o gymunedau cydlynus (5)	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu (6)	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang (7)
---------------------	---------------------	-------------------	-----------------------------	--------------------------------	---	---

Er mwyn cyfrannu at Gymru lewyrchus, mae angen gwneud cysylltiadau rhwng addysg a busnes er mwyn gwneud yn siŵr bod pobl ifanc yn barod ar gyfer swyddi'r dyfodol. Bydd Bargeinion Dinesig yn gyfrannwr allweddol i Gymru Lwyddiannus, ond bydd adeiladu ar gryfderoedd ein heconomi leol, ein treftadaeth a'n diwylliant yn allweddol hefyd, er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfraniad y maent yn ei wneud i'r economi. Bydd seilwaith trafniadaeth gynaliadwy yn allweddol o ran sicrhau bod pawb yn medru cyrraedd swyddi a hyfforddiant ac o ran lleihau allyriadau carbon.

Gweithio tuag at yr ateb

Mae natur y datblygiad economaidd yn golygu bod y darlun yn aml yn symud yn gyflym ac mae angen i wasanaethau cyhoeddus allu ymateb i'r tirlun cyfnewidiol. Hyd yma mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi bod yn adolygu'r camau y bydd yn canolbwyntio arnynt o dan yr amcan yma wrth ystyried y dystiolaeth ddiweddaraf ar les economaidd yn y sir a'r datblygiadau diweddaraf o ran datblygiad economaidd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Bydd unrhyw newidiadau i'r camau y bydd y Bwrdd yn Canolbwyntio arnynt o dan yr amcan yma'n cael eu gwneud yng Nghynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Bydd y BGC yn canolbwyntio ar:	Cysylltiadau rhwng yr amcanion	Nodau	Effaith
Manteisio i'r eithaf ar y cyfleon fydd ar gael i Sir Fynwy fel rhan o Bargaen Ddinesig	  	1, 4, 5	Tymor Canolig

Crynodeb o gynnydd:

Mae Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi symleiddio ei drefniadau llywodraethu fel modd o gyflawni blaenoriaethau allweddol ar gyfer y rhanbarth. Mae'r blaenoriaethau'n ymwneud â sgiliau, trafniadaeth, datblygiad strategol, cynllunio a thwf busnes. Mae Cyngor Sir Fynwy wedi cymeradwyo Cynllun Busnes strategol Pum Mlynedd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Mae Cabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd hefyd wedi gosod ei Gynllun Diwydiannol ac Economaidd, Fframwaith Buddsoddi a Chronfa Buddsoddi gan osod tair blaenoriaeth sy'n canolbwyntio ar seilwaith, arloesi a herio.

Yn dilyn y pandemig COVID-19, diweddarodd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ei Gynllun Twf Diwydiannol ac Economaidd Rhanbarthol a'i Fframwaith Buddsoddiad ac Ymyrraeth. Mae hyn yn cwmpasu'r deg blaenoriaeth i mewn i atodiad eglur a fydd yn ganllaw ar gyfer gosod y ffyrdd gorau y gall Prifddinas-Ranbarth Caerdydd helpu i liniaru rhai o'r effeithiau mwyaf ar yr economi a busnes yn y rhanbarth o ganlyniad i'r argyfwng a'r effaith parhaus yn y dyfodol.

Gwell dealltwriaeth o'r gwaith fydd ar gael yn y dyfodol a sicrhau bod cysylltiadau hyfforddiant ac addysg yn eu lle gyda busnesau er mwyn deall pa sgiliau sydd eu hangen ar weithlu Sir Fynwy ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.



1

Tymor Canolig

Crynodeb o gynnydd:

Mae amrywiaeth o waith yn cael ei symud yn ei flaen fel modd o gyflawni'r cam hwn. Mae'r gwaith yn cynnwys:

- Datblygu bas data o gyflogwyr er mwyn cefnogi digwyddiadau ar fentrau a chreu cyfleoedd o ran lleoliadau gwaith a chyfleoedd cyflogaeth.
- Gwella cysylltiadau gyda phartneriaethau mentrau busnes presennol, darparwyr hyfforddiant a chyflogwyr er mwyn creu cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth newydd.
- Cynyddu'r ymgysylltiad rhwng pobl ifanc, oedolion a busnesau lleol gyda llwybrau gyrfa cyffrous a chyfleoedd cyflogaeth lleol.
- Rhoi dull cydgysylltiedig ar waith er mwyn creu cyfleoedd o ran profiad/lleoliad gwaith ar draws Cyngor Sir Fynwy.
- Cymeradwyo Strategaeth Prentisiaethau, Interniaethau a Graddedigion er mwyn creu cynnig corfforaethol o ran cyfleoedd hyfforddeiaethau a prentisiaethau sy'n diwallu'r angen yn lleol.
- Rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy: - Lleihau'r nifer o bobl sydd mewn perygl o ddioddef tlodi, cynyddu cyflogadwyedd, lefel sgiliau a hyfforddiant ymysg cyfranogwyr a chreu mynediad at gyflogaeth sy'n talu'n uwch/ lleihau tlodi mewn gwaith.

Cymeradwyo Rhaglen Prentisiaeth Gofal am yr Economi Sylfaenol

Datblygu technolegau newydd er mwyn gwella trafnidiaeth yng nghefn gwlad



1, 4, 5, 7

Tymor Canolig

Crynodeb o gynnydd:

Lansiwyd yr her GovTech, a ariennir gan Swyddfa'r Cabinet, ym mis Gorffennaf 2018 er mwyn annog cwmnïau technoleg i ddatblygu a threalu datrysiadau'n seiliedig ar dechnoleg ar gyfer unigrwydd a diffyg trafnidiaeth yng nghefn gwlad. Y bwriad oedd datblygu a phrofi'r rhain yn Sir Fynwy gan ehangu o bosib o amgylch y DU a thu hwnt a datrysiadau masnachol hyfyw. Gwnaed ceisiadau gan 57 cwmni, ac o'r rheiny gwobrwywyd £50,000 yr un i bum cwmni ar gyfer ymchwil a datblygu. Wedi hyn dewiswyd dau o'r rhain i symud y gwaith yn ei flaen ymhellach gyda chyllid ychwanegol gan Swyddfa'r Cabinet. Canolbwyntiodd y Tîm Deall Ymddygiad yn bennaf ar unigrwydd ac ynysigrwydd a rhoddodd Box Clever Digital fwy o bwyslais ar drafnidiaeth yng nghefn gwlad.

Mae Box Clever Digital wedi bod yn datblygu platfform digidol o'r enw Thrive er mwyn helpu pobl mewn ardaloedd anghysbell drwy wella opsiynau o ran trafnidiaeth, hyrwyddo mobility-as-a-service drwy rannu liffitiau, llogi preifat a trafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r datblygwyr wedi gweithio'n agos gyda Chanolfan Gymunedol Bridges yn Nhrefynwy i dreialu peth o'r dechnoleg gyda'u Cynllun

Gofalu a Rhannu Cymunedol. Arweiniodd hyn at gynnydd sylweddol yn nifer y milltiroedd defnyddwyr y gellid eu darparu wrth ddefnyddio adnoddau presennol.

Wrth iddo ddatblygu, bydd y platfform yn rhoi gwybodaeth ar drafnidiaeth i ddefnyddwyr, gan roi mwy o dewis i bobl am brisiau amrywiol. Gallai hyn leihau'r costau i wasanaethau gofal statudol drwy wneud pobl sydd angen cefnogaeth yn fwy cydnerth a drwy annog aelodau eraill o'r gymuned i'w helpu.

Rhoddwyd y prosiectau GovTech ar stop dros dro ar gais Swyddfa'r Cabinet yn fuan wedi i bandemig Coronafirws gychwyn

Hwyluso gwell rhwydweithio busnes er mwyn rhannu gwybodaeth a chael mynediad i dechnoleg a chyfleon rhanbarthol i alluogi busnesau i dyfu		1	Tymor Byr
--	---	----------	------------------

Crynodeb o gynnydd:

Wrth adeiladu perthnasau gyda'r sector busnes lleol ers i'r Asesiad Llesiant gael ei gynnal, rydym wedi dod i ddeall faint o rwydweithio busnes sy'n digwydd yn barod. Dyma ddatblygiad cadarnhaol iawn.

Mae ein digwyddiadau rhwydweithio a rhannu gwybodaeth yn cynnwys:

- Fforwm Cydnerthedd Busnes Sir Fynwy a sefydlwyd gyda chynrychiolwyr busnes o holl drefi Sir Fynwy.
- Cyfarfodydd bob yn ail fis gyda chydweithwyr o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd ac Arweinwyr Datblygiad Economaidd rhanbarthol
- Cyfarfodydd rheolaidd gyda chydweithwyr o adran Adfywio Llywodraeth Cymru i drafod y camau nesaf o ran datblygu canol trefi.

O ganlyniad i'r gwaith yma ac ail-asesiad o'r angen, ni fydd y cam gweithredu hwn yn cael ei symud ymlaen.

Edrych yn fanylach ar bosibiliadau o ran canolfannau rhagoriaeth arbenigol o fewn Sir Fynwy e.e. bwyd / lletygarwch, amaeth, twristiaeth a thechnoleg	  	1, 2, 6	Tymor Canolig
--	--	----------------	----------------------

Crynodeb o gynnydd:

Mae cynnydd yn cael ei wneud o ran y gwaith i ganfod cyfleoedd i gynyddu faint o fwyd cynaliadwy o ffynhonnell leol sydd ar gael i gyflenwi twristiaeth a busnesau yn y rhanbarth.

Mae Swyddog Prosiect Bwyd Rhaglenni Cefn Gwlad penodol wedi cael eu penodi. Bydd y swydd yn canolbwyntio ar:

- Redeg prosiect 'datblygu a dadansoddi data y sector bwyd' a fydd yn dod ag amrywiaeth o randdeiliaid ynghyd.
- Ymgysylltu gyda gwneuthurwyr polisi o fewn Llywodraeth Cymru er mwyn rhagweld tueddiadau bwyd a phenderfynu ar amcanion o ran llunio polisiau;

Hwyluso partneriaeth strategaeth gan obeithio meithrin arfer gorau ymysg y sector bwyd

Astudiaethau Achos: Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc – Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant a phobl ifanc

Yr Her

Drwy'r Asesiad Llesiant daeth i'r amlwg bod plant sy'n profi plentyndod llawn straen ac o ansawdd gwael yn fwy tebygol o ymddwyn mewn ffordd sy'n niweidio eu hiechyd yn ystod glasoed, a gall hyn yn eu hun arwain at salwch a chlefydau yn nes ymlaen yn eu bywydau. Gall hyn ddigwydd o genhedlaeth i genhedlaeth. Gall atal y profiadau yma, neu leihau eu heffaith fod o fudd i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Ar lefel genedlaethol, mae problemau iechyd meddwl yn effeithio o gwmpas 1 o bob 10 plentyn a pherson ifanc, ac erbyn iddynt fod yn 14 oed bydd hanner y problemau iechyd meddwl wedi cychwyn. Mae'r rhain yn cynnwys iselder, gorbryder ac anhwylder ymddygiad, ac fel arfer, ymateb uniongyrchol i'r hyn sy'n digwydd yn eu bywydau yw hyn. Dim ond rhan fechan o'r darlun yn unig yw ymyriadau clinigol o ran cefnogi iechyd meddwl a lles emosiynol plant a phobl ifanc; a gellir dweud yr un peth am ysgolion. Cymunedau changach yw'r lle y gellir gwneud cysylltiadau ac ymyriadau ystyrlon.

Beth wnaethom ni? Pam ein bod yn gwneud hyn?

Gweithred bwysig sydd wedi ei chyflawni yw cynyddu ein dealltwriaeth o ran pa mor ymwybodol yw ein holl bartneriaid a sefydliadau eraill o PNP. Er mwyn gwneud hyn, cynhaliom weithdy 'meddwl trwy systemau', mewn cydweithrediad â Cymru Well Wales, Hwb PNP a holl bartneriaid y BGC. Roedd y gweithdy cydgysylltiol hwn yn sail i ddull sydd wedi ei silio ar PNP i sicrhau bod gan asiantaethau partner y BGC ymatebion ac adnoddau cydgysylltiol ac integredig sy'n eu galluogi i ganolbwyntio ar ymyriadau rhagweithiol, ataliol a lliniarol sy'n galluogi plant a theuluoedd i gael mynediad at gefnogaeth llwyr integredig ar draws yr holl asiantaethau/adrannau ac elwa o rannu gwybodaeth di-dor. Y nod yn y tymor hir yw sicrhau bod gan bob plentyn, ym mhob cwr o'r sir, fynediad at oedolyn y gellir ymddiried ynddynt.

Fel modd o ddatblygu'r nod yma, gwnaed gwaith mapio a chwmpasu ar draws Sir Fynwy er mwyn canfod faint o wasanaethau ieuencid cefnogol a darpariaeth oedd ar gael i bobl ifanc yn y sir. Gwnaethpwyd gwaith hefyd er mwyn grwpio'r rhain yn ôl y math o weithgaredd (chwaraeon, celfyddydau, drama ac ati). I gefnogi'r gwaith gwnaed gwaith tebyg o fewn holl ysgolion Sir Fynwy er mwyn deall pa systemau a phrosesau sydd mewn lle er mwyn adnabod ac ymateb i bryderon ynghylch ACE a iechyd meddwl a lles pobl ifanc. Y bwriad oedd y byddai'r gweithredoedd yma'n ein galluogi i greu darlun o pa gefnogaeth sy'n bodoli, ym mhle a pha mor effeithiol yw'r ddarpariaeth.

Mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc (PSPPI), sy'n gyfrifol am ddatblygu'r maes gwaith yma, yn dod â phartneriaid allweddol ynghyd i weithio ar gynllun cyflenwi sy'n cynnwys y camau llesiant canlynol:

- Mynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a phroblemau sy'n parhau o genhedlaeth i genhedlaeth o fewn teuluoedd.
- Gweithio i wneud yn siŵr bod ysgolion a gwasanaethau plant yn canolbwyntio ar lesiant ac yn defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar lawer mwy na chanlyniadau academiaidd yn unig.

- Cefnogi cadernid plant a phobl ifanc mewn perthynas â'u hiechyd meddwl a'u llesiant emosiynol.
- Datblygu model gofal sydd wedi ei adeiladu ar lesiant a gofalu am ein gilydd yn hytrach nag ar ddarpariaeth gofal ffurfiol
- Datblygu rhwydweithiau, ar gyfer pobl o bob oed, sy'n cefnogi llesiant o fewn eu cymunedau lleol, gan gynnwys presgripsiynu cymdeithasol (gweler eglurhad uchod)

Gwnaeth y PSPPI y penderfyniad i osod lens iechyd meddwl a lles emosiynol ar eu dull. Cytunodd yr holl bartneriaid bod angen iechyd meddwl da a lles emosiynol ar bobl ifanc er mwyn lliniaru ac atal yr hyn sy'n achosi PNP. Pe byddai'r holl bartneriaid yn gweithio er budd iechyd meddwl pobl ifanc, byddai modd i bobl ifanc ddod yn fwy cydnorth. Er mwyn sicrhau y gall hyn ddigwydd, cychwynnodd y BSPPI adolygu'r systemau presennol ar draws y ddarpariaeth iechyd a darpariaeth yr awdurdod lleol er mwyn deall sut y caiff gwasanaethau a chefnogaeth ar gyfer iechyd meddwl plant a phobl ifanc ei ddarparu; sut mae ein systemau'n siarad gyda'u gilydd a sut y gellir pasio gwybodaeth ymlaen o fewn ein systemau. Bu iddynt ystyried, hefyd, yr hyn sydd angen ei gynnwys o fewn ein systemau er myn iddynt fod yn wirioneddol effeithiol. Mae'r gwaith o edrych ar hyn mewn mwy o fanylder yn mynd rhagddo gyda sefydliadau partner a bydd y gwaith yn dylanwadu ar y newidiadau i arferion wrth i'r BGC symud yn ei flaen. Fel rhan o'r gwaith yma, mae'r BGC wedi cychwyn mapio'r ddarpariaeth sydd ar gael trwy gydol bywyd unigolyn, gan ymgorffori'r 1000 diwrnod cyntaf, sef rhwng 16 a 25 mlwydd oed. Rhoddir pwyslais penodol ar gyfnodau o newid ym mywyd person ifanc. Bydd hyn yn dwyn gwybodaeth ynghyd o wahanol feysydd gwasanaeth/sefydliadau fel modd o greu 'cronoleg' o'r ymyrraeth a wneir gan wasanaethau gyda pobl ifanc er mwyn canfod ble y gellir newid gwasanaethau/arferion er mwyn gwella'r gefnogaeth i bobl ifanc ar y pwynt cyntaf posibl.

Yn ogystal â'r gwaith mapio, adnabod bylchau a dadansoddi systemau helaeth sy'n mynd rhagddo, mae'r BGC, drwy'r PSPPI, wedi bod yn weithredol o ran alinio'r gwaith iechyd meddwl a chydnerthedd emosiynol o dan Wasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Glasoed y Bwrdd Partneriaethau Rhanbarthol, gan fynd a hyn i'r gymuned drwy ddefnyddio'r dull Seicoleg Gymunedol. Nod y model yw gosod arbenigedd clinigol ochor yn ochor â staff rheng flaen sydd ar lawr gwlad gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae'r model yn cyflwyno arbenigedd a hyfforddiant er mwyn helpu'r rheiny sydd â pherthynas ymddiriedus gyda phobl ifanc i'w galluogi i'w deall a'u cefnogi drwy eu rhyngweithiadau y tu allan i awyrgylch clinigol neu'r ysgol. Bydd y gwaith hwn yn helpu'r BGC i greu rhwydweithiau lles integredig a rhwydweithiau gofal ar gyfer plant a theuluoedd ar draws y sir. Unwaith eto mae'r gwaith hwn yn parhau a bydd wedi ei ymgorffori'n gadarn yn ehangach fel rhan o ddatblygiad Cynnig Gwasanaethau Cefnogi Ieuenctid Sir Fynwy ar eu newydd wedd.

Yr heriau sy'n ein wynebu:

Er bod gwaith helaeth wedi ei wneud gan y BGC o ran PNP a iechyd meddwl plant yn ystod y deuddeg mis diwethaf, mae mwy o waith i'w wneud o hyd. Dyma ddangos maint yr her o ran gwella iechyd meddwl a lles emosiynol ein pobl ifanc. Nid oes datrysiad hawdd, ac yn wir mae'n broblem gymhleth neu faleisus sydd a sawl agwedd iddi ac mae'n cymhlethu'r ffordd y gall cyrff sector cyhoeddus weithio gyda'u gilydd yn fwy effeithiol. Mae'r BGC, drwy'r PSPPI, yn edrych yn fanylach ar yr heriau sydd ynghlwm wrth feini prawf gwasanaethau, y trothwyon a'r dyletswyddau statudol sydd gennym fel cyrff cyhoeddus a all greu cymhlethdod a heriau o ran darparu cymorth. Yn ogystal â hyn, mae problemau eraill, gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i, barodrwydd rhieni i gydnabod problemau teuluol ehangach (mae rhieni weithiau eisiau datrys problemau ymddygiad eu plentyn) ac amharodrwydd rhieni a phobl ifanc fel eu gilydd i dderbyn cefnogaeth. At hyn, ni all plant a phobl

ifanc gael mynediad at gymorth yn ddienw, heb ganiatâd a chymorth rhieni. Yn aml, y plant a'r bobl ifanc sy'n byw mewn cartrefi llawn anrhefn, yw'r rhai sydd angen y cymorth mwyaf, ond y rheiny hefyd yw'r rhai sy'n fwyaf tebygol o fethu â mynychu apwyntiadau. Wrth i bobl ifanc dyfu'n hŷn, maent yn wynebu cyfnodau o newid, wrth iddynt ddod yn oedolion a dibynnu llai ar eu rhieni. Mae hyn yr un mor heriol oherwydd y trothwy o ran y cymorth sydd ar gael iddynt. Mae gan rai oedolion ifanc broblemau cymhleth iawn sydd wedi hen sefydlu dros amser, ac yn aml, wrth iddynt gyrraedd oed y cânt eu hystyried yn oedolion yn hytrach na phobl ifanc gan wasanaethau, dim ond gwasanaethau cymorth i oedolion sydd ar gael iddynt. Yn hyn o beth mae gwaith trawsnewidiol yn dod yn hanfodol o ran darparu'r cymorth parhaus sydd ei angen ar y bobl ifanc yma er mwyn eu helpu wrth iddynt ddod yn oedolion. Mae'r holl ffactorau yma'n dwysau'r heriau a all rwystro plant a phobl ifanc rhag ffynnu, yn enwedig os yw'r plant yn byw neu wedi tyfu fyny mewn cartref llawn anrhefn ac wedi byw mewn ffordd anhrefnus am gyfnodau estynedig.

Mae BGC Sir Fynwy wedi ymgymryd â gwaith sylweddol er mwyn deall y problemau maleisus rhain yn ystod y deuddeg mis diwethaf ac mae wedi sicrhau bod y ffrwd waith yma'n parhau'n flaenoriaeth yn 2020/21. Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo er mwyn deall y cynnig sydd ar gael i blant a phobl ifanc, a hynny o fewn a thu allan i ysgolion a lleoliadau. Rydym wedi gwneud cynnydd o ran y model Seicoleg Gymunedol ac wedi cryfhau ein panel Cymorth Cynnar. Rydym hefyd wedi cychwyn dadansoddi ein systemau a'n darpariaeth gwasanaeth. Mae'r pandemig wedi tarfu ar y gwaith, fodd bynnag mae cryfder y dull partneriaethol ar draws y BGC wedi golygu bod gwaith cydweithrediadol yn ystod y cyfnod hwn wedi parhau. Nid yw partneriaid wedi colli golwg ar y gwaith da sydd wedi ei gyflawni yn ystod y misoedd cyn Covid-19, ond yn hytrach, maent wedi sylweddoli bod plant a phobl ifanc hyd yn oed yn fwy agored i niwed yn sgil y pandemig. Maent yn sylweddoli bod hyn yn cyflwyno heriau newydd o ran sut y gellid newid pwyslais y maes gwaith pwysig hwn er mwyn sicrhau bod y cymorth cywir ar gael ar yr amser cywir yn y ffordd gywir.

Bydd y PSPPI yn parhau gyda'r gwaith yma gan roi hyd yn oed mwy o bwyslais ar sut i barhau i gefnogi Iechyd Meddwl a Lles Emosiynol Plant ac atal PNP wedi i'r pandemig ddod i ben yn Sir Fynwy. Un o'r pethau positif sydd wedi deillio o'r pandemig yw pa mor werthfawr yw cymuned a'r gwirfoddolwyr o fewn ein cymunedau. Bydd hyn yn faes penodol o waith y bydd partneriaid y BGC yn canolbwyntio arno wrth i ni symud ymlaen. Byddant yn elwa ar y cyfalaf cymdeithasol di-ri sy'n bodoli yn ein cymunedau, edrych yn fanylach ar sut y gallwn barhau i adeiladu 'rhwydweithiau gofal ar gyfer bob oed' a 'modelau gofal yn seiliedig ar ddarpariaeth anffurfiol yn ogystal â darpariaeth ffurfiol'. Mae plant a phobl ifanc yn rhan annatod o wead ein sir, ac ni ddylem roi'r gorau i geisio sicrhau tegwch o ran cymorth, darpariaeth a chyfleoedd i'r holl blant a phobl ifanc o bob cwr o Sir Fynwy er mwyn eu galluogi i gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd'.

Craffu ar Amcanion Llesiant

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dibynnu'n fwy na dim arall ar rôl y llywodraeth leol i graffu er mwyn sicrhau gwelliant parhaus. Yn Sir Fynwy mae Pwyllgor Dethol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus penodedig wedi ymgymryd â'r swyddogaeth hon.

Mae'r Pwyllgor wedi ehangu ei gylch gorchwyl er mwyn canolbwyntio ar weithgaredd cydweithredol gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i'r BGC. Golyga hyn y bydd yn craffu ar waith ac effeithiolrwydd partneriaeth strategol (gan gynnwys y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus) a darparwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill a chyflwyno heriau adeiladol. Bydd hyn yn sicrhau atebolrwydd cyhoeddus o wasanaethau cydweithredol a gwell canlyniadau i drigolion Sir Fynwy. Cymeradwywyd hyn gan y Cyngor yn mis Hydref 2019, ac arweiniodd at well trefniadau llywodraethu ar gyfer gwasanaethau a ddarperir i ddinasyddion Sir Fynwy.

Yn ystod 2019-20 mae'r Pwyllgor wedi craffu ar Adroddiad Blynyddol 2018-19. Gwnaethant Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn atebol o ran arwain ar y cam ar gefnogi cydnerthedd plant a phobl ifanc o ran eu iechyd meddwl a'u lles meddyliol, yn ogystal â chraffu ar waith rhanbarthol sy'n mynd rhagddo ar Drais yn erbyn Merched, Trais Domestig a Thrais Rhywiol. Maent hefyd wedi ystyried unrhyw waith craffu ar Fyrddau Partneriaid Rhanbarthol yn y dyfodol.

Ni fu modd cynnal yr hyfforddiant a gynlluniwyd ar ddefnyddio'r Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer craffu fel y bwriadwyd. Yn hytrach, bydd yr hyfforddiant yn cael ei ehangu er mwyn cwmpasu holl aelodau Craffu Cyngor Sir Fynwy (ac nid y Pwyllgor Dethol ar Wasanaethau Cyhoeddus yn unig) a bydd yn cael ei gynnal cyn gynted ag y mae amgylchiadau'n caniatáu.

Gellir dod o hyd i adroddiadau a chofnodion cyfarfodydd Pwyllgor Dethol y BGC ar:

<https://democracy.monmouthshire.gov.uk/>

Partneriaid y BGC yn gweithio'n well gyda'u gilydd

Mae'r Cynllun Llesiant hefyd yn nodi rhai meysydd sefydliadol y dylai partneriaid y BGC weithio'n well gyda'u gilydd arnynt er mwyn gwneud cynnydd. Mae enghreifftiau o lle gwelir hyn yn cynnwys:

- Galluogi cymunedau i helpu eu hunain e.e. adnabod asedau lleol a'u datblygu'n unol â'r angen, gan eu gweld fel partneriaid cyfartal a gwerthfawr yn y sir
- Datblygu gwell cysylltiadau rhwng gwasanaethau, sefydliadau a grwpiau cymunedol, er mwyn cyflawni dull mwy cydgysylltiedig a chynhwysol.



Mae'r BGC wedi sylweddoli ers tro mai un o asedau mwyaf Sir Fynwy yw'r dinasyddion sy'n byw yma.

O dan y BGC, cynhaliodd y BGC a MSGG ddigwyddiad 'Nerth y Gymuned' ar y cyd ar y 4ydd o Fawrth 2020. Daeth y digwyddiad â gwirfoddolwyr, grwpiau cymunedol a sefydliadau ynghyd i ganolbwyntio ar bob agwedd ar Ddinasyddiaeth Weithgar a swyddogaeth y Mudiad o ran cefnogi a hwyluso hyn.

Daeth cant tri deg o bobl i'r digwyddiad, a bu iddynt edrych yn fanylach ar egwyddorion dinasyddiaeth weithgar yn Sir Fynwy a swyddogaeth y sefydliadau a'u herio. Rhannodd nifer o siaradwyr gwadd a phanel o arweinwyr BGC eu barn ar:

1. Sut y gallwn gefnogi busnesau a sefydliadau i gael mwy o effaith ac effaith fwy positif o fewn ein cymunedau?
2. Beth sy'n bwysig i ddinasyddion sy'n weithgar o fewn eu cymunedau? Sut y byddent yn hoffi cael eu cydnabod?
3. A fyddai siarter gwirfoddoli a pholisi ar y cyd yn gwella'r amodau i bobl yn ein sir?
4. Sut mae normaleiddio cyfranogi o fewn eich cymuned? Sut y gallwn gefnogi hyn?

Sut mae gwneud gwirfoddoli'n fwy cynhwysol a hygyrch?



Galluogodd y digwyddiad hwn y BGC i ymgysylltu ag arweinwyr, grwpiau a sefydliadau cymunedol er mwyn blaenoriaethu'r hyn sydd o bwys, a dod â phobl ynghyd o ran yr hyn sy'n bwysig iddynt. Roedd hwn yn gam mawr ymlaen o ran cynorthwyo'r BGC i gryfhau ei ymgysylltiad gyda dinasyddion, ac i ddeall sut y mae angen iddynt, fel sefydliadau, ymateb er mwyn helpu i hwyluso ac adeiladu ar y cyfoeth o gyfalaf cymdeithasol ymysg trigolion Sir Fynwy. Mae'r BGC bellach yn teimlo eu bod yn fwy cymwys o ran dod â'r bobl gywir – pobl sy'n frwd ac yn awyddus i wneud gwahaniaeth – ynghyd.

Sicrhau bod cyfathrebu clir yn digwydd rhwng y BGC, y Llywodraeth Leol, Cyngorau Tref a Chynghorau Cymuned a'r gymuned

Mae Tîm Datblygu Cymunedau a Phartneriaethau Cyngor Sir Fynwy wedi parhau i weithio'n agos â Chynghorau Tref a Chynghorau Cymuned yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Yn fwyaf diweddar, gwahoddodd y BGC Gyngorau'r trefi mwyaf, sy'n syrthio o fewn deddfwriaeth y ddeddf, i ddod yn aelodau gweithredol ar eu Byrddau Rhaglen BGC. Cytunodd y Cyngorau Tref i gael un cynrychiolydd ar ran y pedair tref i'w cynrychioli yng nghyfarfodydd Bwrdd Rhaglen y BGC ac adrodd yn ôl yn ôl yr angen. Yng ngwyneb y berthynas gynyddol gref rhwng y Cyngorau Cymuned a'r Cyngorau Tref a'r BGC yn ystod y deuddeg mis diwethaf, mae'n ymddangos y gellir cyflawni mwy ar draws y sir wrth gynnwys Cyngorau Cymuned a Chynghorau Tref yn gynt yn y trafodaethau a ffrydiau gwaith. Mae gweithio'n gydweithredol gyda'r Cyngorau Cymuned a'r Cyngorau Tref, fel partneriaid hafal ar gyflawni blaenoriaethau llesiant ar gyfer y sir wedi bod o fudd mawr. Mae gwaith ardderchog wedi ei wneud ganddynt yn ystod y 12 mis diwethaf. Yn y tabl isod mae rhai enghreifftiau. Nid yw'r rhestr hwn yn restr cyflawn, cip olwg yn unig ydyw ar waith ardderchog ein partneriaid dinesig.

Rhoi'r dechrau gorau posib mewn bywyd i blant a phobl ifanc	
Cyngor Tref y Fenni	Buddsoddi cyllid ychwanegol ym mhrosiect SHIFT MCC er mwyn cynyddu faint o oriau o gefnogaeth sydd ar gael yn y Fenni ar gyfer pobl ifanc sy'n wynebu problemau sy'n ymwneud â lles emosiynol. Cynnal perfformiad yn rhad ac am ddim mewn theatr ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6. Yn ogystal, rhoesant gefnogaeth ariannol i Eisteddfod Ieuenctid y Fenni a gwyliau eraill yn y dref sy'n cynnwys gweithgareddau am ddim i bobl ifanc fel rhan o'u rhaglen.
Cyngor Tref Trefynwy	Bu iddynt fuddsoddi cyllid ychwanegol ym mhrosiect SHEP MCC er mwyn rhedeg cynllun chwarae hygyrch yn ystod haf 2019. Mae SHEP yn darparu bwyd da a gweithgareddau ar gyfer plant yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae canran uchel o'r plant yn blant sy'n cael cinio ysgol am ddim yn ystod y tymor. Symudwyd cynlluniau yn eu blaen ar gyfer ail-leoli Parc Chwarae Chippenham er mwyn creu man awyr agored diogel ar gyfer chwarae mewn rhan llai llygredig o'r dref.
Cyngor Tref Cas-gwent	Bu iddynt gynyddu'r gefnogaeth ariannol i sefydlu cynlluniau chwarae awyr agored yn Ysgol Gynradd Thornwell a Chanolfan Gymunedol Bulwark yn ystod gwyliau'r haf 2019.
Cyngor Tref Cil-y-coed	Rhoi cefnogaeth ariannol i gynlluniau chwarae yn ystod yr haf, gan wneud yn siŵr bod cyfleusterau ar gael er mwyn galluogi pob plentyn i ddatblygu a gwella eu sgiliau. Darparu mannau awyr agored fel Ymddiriedolwyr Caeau Chwarae'r Brenin George V, ac mae'n parhau'n ymroddedig i iechyd preswylwyr yng Nghil-y-Coed. Sicrhau bod y caeau chwarae'n cael eu cynnal a'u cadw'n rheolaidd a'u bod yn ddiogel ar gyfer y cyhoedd. Mae'r caeau chwarae'n cynnwys man chwarae i blant, offer ymarfer awyr agored i oedolion ac maent yn gartref i gymdeithasau chwaraeon (Clwb Bowls Cil-y-coed, Clwb Pêl Droed Tref Cil-y-coed).

Ymateb i heriau sy'n ymwneud â newid i ddemograffeg	
Cyngor Tref y Fenni	Mae cytundeb ariannu aml-flwyddyn y Cyngor Tref gyda Ymddiriedolaeth Gymunedol y Fenni'n cyfrannu at gostau staffio a chostau rhedeg sy'n galluogi'r ganolfan gymunedol i redeg amrywiaeth eang o weithgareddau gan gynnwys lansiadau a boreau coffi. Mae Cyngor Tref y Fenni'n cefnogi Partneriaeth Menter Gymunedol y Fenni sy'n cynnig cefnogaeth a chynghor i breswylwyr, yn enwedig y rheiny sy'n byw yng Ngogledd y Fenni.
Cyngor Tref Trefynwy	Rhoi grant i Neuadd Gymunedol Methodistaidd Trefynwy er mwyn iddynt allu gosod lifft anabl newydd. Mae'r lifft yn rhoi mynediad i'r rheiny sydd â phroblemau symudedd a'u galluogi i fynychu cyngherddau, gwyliau cymunedol a digwyddiadau teuluol, y byddent, efallai, wedi methu â'u mynychu heb y lifft. Daw'r rhain â phob cenhedlaeth ynghyd. Rhoi grant i Gôr Cymunedol Trefynwy sy'n annog pob cenhedlaeth i ddod ynghyd er mwyn mwynhau gallu canu cymunol i ddwyn pobl ynghyd.
Cyngor Tref Cas-gwent	Wedi datblygu cytundeb partneriaeth a gychwynnodd ym mis Mai 2020 gyda MIND Sir Fynwy er mwyn cynnal sesiynau lles a chydnerthedd i oedolion unigol. Bydd y sesiynau o gymorth i deuluoedd o ran adeiladu cydnerthedd a chefnogi teuluoedd i ymdopi â heriau bywyd. Cefnogi Drill Hall a Chanolfan Gymunedol Bulwark yn ariannol. Ystyrir y rhain yn hybiau lleol o ran gweithgareddau cymunedol. Gall pobl gymryd rhan mewn gweithgareddau, derbyn cefnogaeth a dod at eu gilydd ynddynt.
Cyngor Tref Cil-y-coed	Wedi creu gwefan a thudalen Facebook. Mae gwybodaeth gyswllt allweddol ar y wefan yn ogystal â gwybodaeth am gyfrifoldebau'r Cyngor. Mae hefyd yn hyrwyddo digwyddiadau grwpiau gwirfoddol a sefydliadau lleol. Defnyddir y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol i roi gwybodaeth i breswylwyr, cyfathrebu â hwy, rhoi cyhoeddusrwydd i gyfarfodydd, digwyddiadau a chyfeirio preswylwyr at darparwyr gwasanaeth eraill. Brwd o ran cefnogi lles drwy'r defnydd sy'n cael ei wneud o adeilad y Cyngor Tref gan grwpiau a sefydliadau o fewn y gymuned, megis y Banc Bwyd, AA, MIND a Chysylltiadau Cymunedol (ar gyfer cleifion sydd â dementia).

Amddiffyn a gwella gwytnwch ein hamgylchedd naturiol tra'n rhwystro ac addasu i effaith newid hinsawdd

Cyngor Tref y Fenni	Mae cytundeb newydd ar gyfer plannu a chynnal a chadw mannau newydd y mae planhigion wedi eu plannu ynddynt yng nghanol y dref wedi ei roi i gwmni sy'n prynu ei blanhigion o feithrinfa blanhigion ddi-fawn. Yn ogystal â hyn, mae'n annog contractwyr eraill sy'n darparu basgedi crog a phlanhigion i ddewis rhywogaethau y gellir eu defnyddio gan bryfed peillio. Mae cefnogaeth ariannol wedi ei roi i grwpiau gwirfoddol 'Cyfeillion Parc Bailey' a 'Chyfeillion Dolydd y Castell'. Bydd pecyn cychwynnol o Gronfa Twf yr Amgylchedd Llywodraeth Cymru yn cael ei ddarparu i bobl ifanc er mwyn creu gardd gymunedol ger y Caban Ieuencid, Old Hereford Road
Cyngor Tref Trefynwy	Wedi helpu i ariannu ffynnon ddŵr yfed yn y dref a fydd yn annog pobl i ail lenwi eu poteli diod eu hunain yn hytrach na phrynu poteli plastig y gellir eu defnyddio unwaith yn unig. Y bwriad yw gosod mwy o ffynhonnau ddŵr yfed yn ystod 2020/21 ac mae Cyngor y Dref yn parhau i gefnogi Trefynwy ddi-blastig mewn ymdrech i addysgu'r gymuned pam na ddylid defnyddio plastig y gellir ei ddefnyddio unwaith yn unig. Wedi gweithio gydag arbenigwyr lleol i gael statws Caru Gwenyn gan Lywodraeth Cymru. Parhau i gefnogi grwpiau lleol megis Trawsnewid Trefynwy, Trefynwy ddi-blastig, Natur Wyllt ac ymgyrch 'dim torri glaswellt' MCC.
Cyngor Tref Cas-gwent	Wedi sicrhau cyllid grant ar gyfer creu mynediad at becyn 'gardd gloynnod byw' mewn partneriaeth â Chadw Cymru'n Daclus ar gyfer plannu yng Ngorsaf Bws Cas-gwent. Y gobaith yw gallu plannu ar y cyd ag ysgolion cynradd lleol a Trawsnewid Cas-gwent pan fydd cyfyngiadau Covid 19 yn caniatáu. Wedi bod yn edrych i mewn i gostau ac ymarferoldeb gosod rhwystr wyrdd ger ochor rhan o'r A48 er mwyn rhwystro gronynnau disel yn ogystal â chynyddu cyfleoedd o ran bioamrywiaeth a lleihau dwr wyneb i ffoi.
Cyngor Tref Cil-y-coed	Creu tri safle rhandir i'w defnyddio gan breswylwyr Cil-y-coed. Mae'r safleoedd yn annog ac yn galluogi pobl i ddod ynghyd i

	drin eu gerddi eu hun a thyfu cynnyrch y gallant ei fwyta ei hunain. Wedi adolygu faint o ynni a ddefnyddir ym mhob safle i wneud yn siŵr bod y gwerth gorau am arian yn cael ei sicrhau wrth adnewyddu cytundebau cyfleustodau ac ymgymryd â gweithdrefnau i wneud yn siŵr nad oes ynni'n cael ei wastraffu.
--	---

Datblygu cyfleoedd i gymunedau a busnesau fod yn rhan o sir sydd â chysylltiadau da ac sy'n ffynnu'n economaidd

Cyngor Tref y Fenni	Annog twristiaeth mewn nifer o ffyrdd, yn benodol, cefnogaeth ariannol i'r Ganolfan Groeso, Cyfrannu at gyhoeddiad Visit Abergavenny, cynnal digwyddiadau sydd am ddim, Goleuadau Nadolig a'r digwyddiad troi'r goleuadau ymlaen, cefnogaeth ariannol i'r gwyliau amrywiol a gynhelir yn y dref. Maent hefyd yn darparu gwasanaethau sy'n creu canol tref mwy dymunol a chyfleus, yn benodol, cyfraniad sylweddol i MCC am y ddarpariaeth o doiledau cyhoeddus, glanhau'r stryd a chamerau CCTV, a phlannu a chynnal a chadw gydol y flwyddyn mewn safleoedd parhaol
Cyngor Tref Trefynwy	Parhau i fod yn aelod o'r Siambr Fasnach leol ac yn gweithio'n agos gyda hwy a sefydliadau eraill ar holl ddatblygiadau tref/busnes newydd. Parhau i fod yn berchen ar/rhedeg un bloc o doiledau cyhoeddus yn ogystal ag ariannu costau rhedeg yr ail bloc yn y dref. Maent hefyd yn cynorthwyo i greu tref ddiogel a mwy dymunol drwy wneud cyfraniadau ariannol tuag at CCTV, trefniannau blodau, glanhau strydoedd a goleuadau/digwyddiadau Nadolig.
Cyngor Tref Cas-gwent	Wedi sefydlu perthynas dda gyda Cae Ras Cas-gwent gyda'r bwriad o weithio mwy mewn partneriaeth er mwyn denu ymwelwyr i Gas-gwent. Neilltuo cyllid grant i'r Ganolfan Groeso er mwyn ei galluogi i aros ar agor. Trefnu 'Bandiau'r Bandstand' bob Haf. Parhau i gefnogi digwyddiadau a gynhelir gan Dîm Digwyddiadau Cas-gwent. Gweithio mewn partneriaeth gyda Marchnadoedd er mwyn cynnal marchnad bob pythefnos rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr gan annog pobl leol i gael stondin
Cyngor Tref Cil-y-coed	Wedi ymrwymo i sicrhau bod y dref yn parhau'n ddymunol, glân a diogel. Er nad yw'r Cyngor Tref yn gyfrifol am lanhau priffyrdd a strydoedd, maent wedi datblygu perthynas waith

	ardderchog gyda Chyngor Sir Fynwy, yr awdurdod cyfrifol, ac maent yn gweithio mewn partneriaeth. Darparu toiledau cyhoeddus, cysgodfeydd bws, biniau gwastraff cŵn a chyfrannu at lanhau strydoedd, torri glaswellt a CCTV er mwyn sicrhau bod y dref yn le dymunol i ymweld â hi a masnachu ynddi
--	--

Mae Cyngorau Tref sy'n disgyn o dan ddyletswyddau'r Ddeddf wedi paratoi adroddiadau blynyddol sy'n tynnu sylw at y gwaith y maent wedi bod yn ei wneud hyd yma i gyfrannu at gyflawni dyhead y Cynllun Llesiant. Gellir gwneud cais am yr adroddiadau yma gan dîm cefnogol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus drwy e-bostio partnerships@monmouthshire.gov.uk. Mae'r adroddiadau yn pwysleisio sut y mae'r Cyngorau Cymuned a'r Cyngorau Tref yn ymgorffori'r 5 ffordd o weithio, ac yn aros yn driw i egwyddorion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd y Tîm Datblygu Cymunedau a Phartneriaethau yn parhau i weithio'n agos gyda Chyngorau Tref er mwyn sicrhau bod y berthynas yn aros yn gryf a bod cyfleon yn cael eu canfod yn gynt a'n bod yn elwa i'r eithaf o'r cyfleoedd drwy gydweithio a sicrhau bod cymunedau wrth galon unrhyw weithgaredd. Bydd Cyngorau Cymuned a Chyngorau Tref a'r BGC yn parhau i weithio'n agosach yn 20/21 ac yn sicrhau eu bod yn cyfathrebu'n effeithiol, yn cydweithredu ac yn cynnwys cymunedau.

Cydgysylltu data, gwybodaeth a systemau i alluogi asiantaethau i gael gwell dealltwriaeth o'r heriau a dod o hyd i gyfleon.

Gan ddefnyddio cyllid rhanbarthol sydd ar gael, mae gwaith wedi cael ei dreialu er mwyn deall sut y gall BGC Sir Fynwy ddatblygu ffordd hygyrch o fonitro materion data allweddol (yn enwedig y data a gyhoeddwyd o dan Drwydded Llywodraeth Agored) a godwyd yn Asesiad Llesiant Sir Fynwy. Rhannwyd yr hyn a ddysgwyd gyda phartneriaid Grŵp Strategol Asesu Llesiant Gwent, ynghyd ag enghreifftiau gan bartneriaid eraill. Bydd yr hyn y byddwn yn ei ddysgu o'r peilot yma yn cael ei ddefnyddio fel sail i'r gwaith a fydd yn cael ei wneud maes o law gan Sir Fynwy a'r BGC, ar ddiweddaru'r prif broblemau a amlygwyd yn yr asesiad llesiant a datblygu fframwaith perfformiad.

Yn ystod 2019/20 mae BGC Gwent wedi gweithio gyda'u gilydd er mwyn datblygu dull sy'n edrych tua'r dyfodol er mwyn nodi risgiau a chyfleoedd y gallai ein cymunedau eu wynebu yn y dyfodol, ar lefel leol a, phan fo hynny'n berthnasol, ar lefel ranbarthol. Mae gwaith wedi ei gomisiynu er mwyn cael dealltwriaeth well o debygolrwydd ac effaith risgiau a chyfleoedd yn y dyfodol a sut y gall y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ymateb iddynt.

Adnabod cyfleoedd ar gyfer caffael o fewn y sector cyhoeddus er mwyn gwella'r gefnogaeth i ddatblygiad gwasanaethau a chynnyrch lleol a bod yn gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Ar draws gwaith y Grŵp Strategol Asesiad Llesiant Gwent (GSALG) mae cyfleon wedi codi i dendro ar y cyd ar gyfer gwaith a fydd yn ein helpu i gyflawni elfennau o'r Cynllun Llesiant. Cafwyd cyllid gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid y BGC ar draws Gwent (5 awdurdod lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Heddlu Gwent, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i gaffael ymgynghorwyr i wneud astudiaeth dichonoldeb ar bwyntiau gwefru ceir trydan ar

draws y rhanbarth. Gwnaed bid llwyddiannus ar y cyd i Swyddfa Cerbydau Allyriadau Isel ar gyfer gosod pwyntiau gwefru a draws Gwent, gan gynnwys mwn chwe maes parcio yn Sir Fynwy.

Gwaith Rhanbarthol

Dyfodol Gwent

Yn y gorffennol mae'r BGC yng Ngwent, drwy'r Grŵp Strategol Asesiad Llesiant Gwent (GSALG), wedi comisiynu gwaith penodol i ddatblygu dealltwriaeth o dueddiadau'r dyfodol a fyddai, o bosib, yn effeithio ar lesiant a'r ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu cyflenwi yng Ngwent, a'i ddefnyddio i ddylanwadu ar ddatblygiad cynlluniau llesiant.

Cwblhawyd y gwaith hwn mewn dau brif ran. Sganio'r Gorwel a Senarios:

- Sganio'r Gorwel: Mae'r rhain yn adnabod tueddiadau strategol bwysig, pethau a allai amharu ar newid neu ei ysgogi, ac maent yn darparu tystiolaeth werthfawr ar y materion rhain. Mae'r sganiau yma'n ymwneud â deg thema eang – Systemau Naturiol, Adnoddau, Technoleg, Diogelwch, Cymdeithas, Economi, Gwleidyddiaeth, Symudedd, Gofodol a Phoblogaeth.
- Senarios: Mae'r adroddiad Senarios yn defnyddio'r canfyddiadau a ddeilliodd o'r gwaith sganio gorwelion i adnabod rhai o'r sbardunwyr allweddol ac ansicrwydd sy'n wynebu Gwent. Bydd y dull senarios yn helpu'r BGC i feddwl am y tueddiadau yma wrth ddatblygu eu cynlluniau llesiant a'r hyn y gallai eu heffaith fod.

Mae hyn wedi arwain at well dealltwriaeth o dueddiadau'r dyfodol a allai gael effaith ar yr holl gamau a gwmpesir. Mae cymryd hyn i ystyriaeth yn help mawr wrth ddatblygu'r gweithredoedd. Yn ystod 2019/20 mae BGC Gwent wedi gweithio gyda'u gilydd er mwyn datblygu dull sy'n edrych tua'r dyfodol er mwyn nodi risgiau a chyfleoedd y gallai ein cymunedau eu wynebu yn y dyfodol, ar lefel leol a, phan fo hynny'n berthnasol, ar lefel ranbarthol. Mae gwaith wedi ei gomisiynu er mwyn cael dealltwriaeth well o debygolrwydd ac effaith risgiau a chyfleoedd yn y dyfodol a sut y gall y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ymateb iddynt. Gwneir hyn yn unol ag egwyddor tymor hir Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r nod yw meddwl tu hwnt i'r tymor byrrach a'r tymor canolog, sef yr hyn y mae'r rhan helaeth o gofrestrau risg yn canolbwyntio arnynt ar hyn o bryd.

Mae nifer o risgiau a chyfleoedd yn y dyfodol yn gymhleth, ac o'r herwydd mae'n anodd eu diffinio'n bendant. Mae'n anodd hefyd cynllunio ar eu cyfer a'u rheoli. Rhan bwysig o waith cynllunio'r BGC yw rhoi proses ar waith a fydd yn helpu'r BGC i ddeall effaith gymharol ac ansicrwydd pob un ohonynt yn ogystal â deall yr amserlen debygol o ran pryd y byddant yn dod yn arwyddocaol. Bydd angen datblygu'r broses yn barhaus wrth i dystiolaeth newydd ddod i law ac arth i'r sefyllfa newid. Cwblhawyd fersiwn gychwynnol y gofrestr risg cyn pandemig y Coronafirws a bydd angen ffactoreiddio unrhyw effeithiau tymor hirach i mewn i'r risgiau a'r cyfleoedd sydd wedi eu nodi eisoes. Mae rhai o'r risgiau a'r cyfleoedd sydd wedi cael eu nodi hyd yma, sy'n arbennig o berthnasol i Sir Fynwy'n cynnwys:

- Anghenion o ran sgiliau yn y dyfodol: Mae risg y bydd pobl ifanc yn cael eu hyfforddi mewn sgiliau amhriodol neu sgiliau sydd wedi dyddio. Mae cyfleoedd i greu system hyfforddiant ac addysg sy'n datblygu datrysyr problemau mwy hyblyg a chreadigol.
- Swyddi a gollir; swyddi a enillir: Mae risg na fydd gan rai cymunedau fynediad at fodd o ddatblygu sgiliau er mwyn helpu unigolion i gael swyddi yn yr economi ddatblygol. Mae cyfleoedd i fusnesau ddod yn fwy effeithio a defnyddio deallusrwydd artiffisial i greu marchnadoedd newydd a chadwyni gwerth.

- **Gwaelder Cronig:** Mae unigolion yn byw yn hirach. Golyga hyn bod cymdeithas yn newid ac mae ein iechyd yn newid hefyd. Mae poblogaeth sy'n heneiddio'n golygu bod nifer y bobl sydd â chyflyrau iechyd hir dymor wedi cynyddu. Mae perygl y bydd cynnydd mewn afiachedd – yn enwedig o ganlyniad i ganser, afiechyd cardiofasgwlaidd, strôc, diabetes a chyflyrau eraill sy'n gysylltiedig â gordewdra. Mae cyfle i symud pwyslais gofal iechyd gan sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar les a mesurau ataliol.
- **Cymdeithas Anghyfartal:** Mae perygl y bydd anghyfartaledd o ran iechyd yn ymwreiddio ymhellach, y bydd mwy o unigrwydd ac ynysigrwydd a mwy o broblemau iechyd meddwl.
- **Newid Hinsawdd:** Mae perygl mawr y bydd tymheredd yn codi, lefel y môr yn codi, mwy o dywydd garw a mwy o lifogydd.
- **Colli bioamrywiaeth:** Mae'r amgylchedd naturiol yn rhoi i ni yr hyn sydd ei angen arnom i fyw
- Ydym yn ei fwyta, yn ei yfed ac yn ei ddefnyddio, ein gwastraff a'n llygredd, manteision diwylliannol a phrosesau naturiol megis peillio. Yn sgil dinasoedd sy'n tyfu, diwydianeiddio, amaethu dwys a newid hinsawdd, mae cynefinoedd naturiol dan fygythiad ar draws y byd ac yn y DU. Mae perygl nad yw natur, bellach, yn darparu'r amrywiaeth o wasanaethau y mae cymdeithas yn dibynnu arnynt.
- **Pwysau ar Dai a Thir:** Bydd pwysau ar dir yn cynyddu yn sgil cynnydd yn y galw am amaeth, coedwigaeth, diwydiant, cloddio, tai, gweithgareddau hamdden ac amwynder. Mae perygl y bydd methu ag adeiladu digon o dai (sy'n cynnwys tai fforddiadwy) yn cynyddu anghydraddoldeb ac yn lleihau fforddiadwyedd a dewis o ran deiliadaeth.

Mae'r gwaith yma'n parhau i gael ei ddatblygu ac mae ymateb i'r pandemig wedi cael effaith ar yr amserlen. Mae angen gwneud gwaith pellach er mwyn datblygu'r risgiau a'r cyfleoedd, ystyried ymatebion addas, datblygu'r Cynlluniau Llesiant ymhellach, a theilwra'r ffordd y caiff gwasanaethau eu cyflenwi yng ngwyneb risgiau a chyfleoedd. Bydd hyn yn cynnwys ystyried edrych yn fanylach ar ymateb yn gydweithredol pan fydd angen.

Gwent yn Barod ar gyfer yr Hinsawdd

Mae cydweithredu ar lefel Gwent gyfan wedi parhau drwy'r rhaglen waith 'Gwent yn Barod am yr Hinsawdd' GSWAG. Drwy weithdai a gynhaliwyd gyda phartneriaid fel rhan o'r gwaith ar Ddatganiad Ardal De Ddwyrain Cymru, mae gweledigaeth Gwent yn Barod am yr Hinsawdd wedi ei datblygu. Mae'r weledigaeth yn cynnwys cyfres o gamau gweithredu y mae partneriaid wedi eu nodi.

Mae gwaith ar y cyd wedi canolbwyntio ar ddau faes: lliniaru effeithiau newid hinsawdd ac addasu i effeithiau newid hinsawdd.

Lliniaru

1. Seilwaith Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan

Roedd Cyngor Sir Fywy'n un o bum Awdurdod Lleol yng Ngwent i gael cael cyfran o £422,000 gan Swyddfa Cerbydau Allyriadau Isel er mwyn gosod cyfanswm o 65 pwynt gwefru cyflym mewn 34 safle yn y rhanbarth – 15 ohonynt mewn meysydd parcio yn Sir Fynwy.

Mae'r gwaith o osod y pwyntiau gwefru'n cael ei wneud gan gwmni o Gymru, sef Silverstone Green Energy. Bydd y cwmni hefyd yn rheoli ac yn cynnal a chadw'r unedau nes 2025. Cychwynnodd y gwaith o osod y Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan yn y flwyddyn newydd, a'r bwriad oedd cwblhau'r gwaith ym mis Mawrth 2020, ond mae COVID-19 wedi golygu na fydd y prosiect yn cae ei orffen ar amser.



Pwyntiau gwefru Cerbydau Trydan Newydd yn Trinity Terrace, y Fenni

2. Fflyd Cerbydau Trydan

Gwnaed adolygiadau o fflydoedd y

Sector Cyhoeddus yn 2018 gan ddefnyddio arian gan Lywodraeth Cymru. Gwnaed yr adolygiad gan y Gwasanaethau Ynni. Nod y gwaith yma yw canfod pa gerbydau y gellir eu cyfnewid, o bosib, am fflyd trydan – yn y bôn er mwyn cynnal adolygiad unigol ac adolygiad sy'n rhoi trosolwg strategol o fflyd Awdurdodau Lleol Gwent, BIPAB, GTADC a Heddlu Gwent. Yn ogystal ag adolygiadau o sefydliadau unigol, gwnaed adroddiad a oedd yn nodi cyfleoedd rhanbarthol i'r sector cyhoeddus gydweithio er mwyn elwa i'r eithaf. Mae opsiynau sydd wedi eu nodi er mwyn lleihau allyriadau carbon yn cynnwys lleihau'r milltiroedd a deithir gan fflyd llwyd a symud at fflyd tanwydd amgen. Er mwyn cynorthwyo â'r gwaith o greu'r cynllun gweithredu, sicrhawyd £16 mil o gyllid gan Lywodraeth Cymru er mwyn ymgymryd â Cham 2 o'r gwaith Adolygu Fflyd. Yn mis Chwefror 2020, mynychodd y grŵp gwaith o swyddogion weithdy a hwyluswyd gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru er mwyn cefnogi'r prosiect hwn.

3. Fflyd Ceir a redir gan Hydrogen a Seilwaith Gwefru

Er mwyn sicrhau bod gan ardal Gwent drosolwg llwyr o gyfleoedd hydrogen, gwnaed astudiaeth rhanbarthol ar gyfer Gwent, a oedd yn edrych yn fanwl ar y posibilrwydd o osod pwyntiau ail-lenwi hydrogen a fflyd hydrogen ymysg asedau fflyd BGC Gwent. Cefnogwyd y gwaith hwn gan Raglen Byw yn Glyfar Llywodraeth Cymru ac mae'n adeiladu ar waith sydd eisoes wedi cael ei wneud gan Gyngor Sir Fynwy.

Mae gweithdy wedi ei drefnu er mwyn i Jacobs a Element Energy adrodd yn ôl ar waith a wnaed ar ran y cyrff cyhoeddus yng Ngwent, sef edrych ar y posibiladau o ran hydrogen ar draws fflyd y sector cyhoeddus, ac adrodd yn ôl ar yr hyn y mae Cyngor Sir Fynwy wedi ei ddysgu. Gohiriwyd y gweithdy yma yn sgil COVID 19.

4. Siarter Teithio Llesol Gwent

Mae Gwent sy'n Barod am yr Hinsawdd wedi bod yn cefnogi datblygiad siarter teithio cynaliadwy ar gyfer Gwent. Arweinir ar y gwaith gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a'r nod yw cefnogi ac annog staff ac ymwelwyr i safleoedd y partneriaid BGC i ddefnyddio dulliau iach a chynaliadwy o deithio.

Fel sail i ddatblygiad y siarter, gofynnod sefydliadau partner i'w staff lenwi holiadur llinell sylfaen. Gofynnwyd i staff sut yr oeddent yn teithio i'r gwaith ac o'r gwaith, a sut yr oeddynt yn teithio yn ystod diwrnod gwaith. Llenwyd cyfanswm o 4,373 holiadur ar draws Gwent. Bydd cais yn cael ei wneud i staff lenwi'r holiadur hwn bob blwyddyn er mwyn mesur cynnydd. Y bwriad gwreiddiol oedd lansio Siarter Teithio Cynaliadwy Gwent ym mis Mehefin, fodd bynnag, mae'r lansiad wedi ei ohirio oherwydd COVID-19.

Addasu

Mae Gwent sy'n Barod am yr Hinsawdd wedi parhau i adeiladu ar waith addasu a wnaed yn 2018 drwy'r rhaglen Addasu i Newid Hinsawdd: Prosiect o brofiadau byw i weithredu strategol. Lluniodd y prosiect hwn naw astudiaeth achos sy'n gwneud argymhellion, ar lefel rhanbarthol ac yn seiliedig ar leoedd, ar gyfer gwella cydnherthedd hinsawdd yn lleol. Roedd yr astudiaethau hefyd yn sail i weledigaeth thema strategol Gwent sy'n Barod am yr Hinsawdd.

Mae canlyniadau'r prosiect hwn wedi bod yn sail i weledigaeth Gwent sy'n Barod am yr Hinsawdd ac mae wedi cynyddu ein dealltwriaeth o ran y peryglon i gymunedau sy'n deillio o newid hinsawdd, yn ogystal â thanlinellu rhai o'r cyfleoedd y gall datrysiadau sy'n seiliedig ar natur eu creu wrth geisio cynyddu cydnherthedd cymunedau.

Mae gan ein adnoddau naturiol ran bwysig i'w chwarae o ran cefnogi ein gallu i liniaru newid hinsawdd drwy storio carbon. Gallant hefyd gefnogi ein ymateb o ran addasu drwy, er enghraifft, reoli dŵr yn y tirwedd a lleihau effaith cynnydd mewn tymheredd. Gall datrysiadau'n seiliedig ar natur hefyd arwain at well iechyd i'n cynefinoedd. Er mwyn cyflawni hyn, rydym yn gweithio'n agos gydag Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent er mwyn ceisio dod o hyd i ddatrysiadau sy'n seiliedig ar natur er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn fwy parod am yr hinsawdd. Yn ogystal â hyn rydym yn gwneud cais am gyllid i redeg prosiect drwy grant GANLI Llywodraeth Cymru.

Mae Grŵp Gwaith Gwent yn Barod am yr Hinsawdd wedi adnabod bod angen gwell dealltwriaeth o faterion sy'n gysylltiedig â hinsawdd er mwyn i sefydliadau allu gweithio'n well gyda'u gilydd yn y rhanbarth. Mae hyn yn plethu'n dda gydag amcanion BGC Sir Fynwy a strategaeth Argyfwng Hinsawdd y Cyngor. Rydym wedi cynnal trafodaethau gyda phartneriaid ynglŷn â darparu hyfforddiant ar lythrennedd carbon, ond yn dilyn tynnu grant cymorth y BGC yn ôl, rydym yn ceisio sicrhau cyllid o ffynonellau eraill.

Cysylltu ein Tirweddau

Mae'r thema Cysylltu ein Tirweddau'n ymwneud â dod o hyd i gyfleoedd lleol ar gyfer ein safleoedd gwarchodedig a'n hamgylcheddau naturiol ac adeiledig er mwyn cyfrannu at gydnerthedd rhwydweithiau cynefinoedd sydd â blaenoriaeth ehangach yn y rhanbarth. Dylai'r cyfleoedd rhain o ran gwella cydnherthedd ecosystem gefnogi cysylltedd ecolegol rhwng safleoedd, ar draws ffiniau ac ar raddfa tirwedd.

Mae camau wedi eu cymryd gan y partneriaid sy'n gweithio gyda'u gilydd ar fynd i'r afael â'r "argyfwng natur" yng Ngwent. Mae ein rhwydwaith ar y thema Cysylltu ein Tirweddau wedi bod yn gweithio gyda'u gilydd ar ddatblygu cyd-weledigaeth ar gyfer y rhanbarth. Mae partneriaid wedi nodi cyfres o ganlyniadau y byddai'n rhaid eu cyflawni er mwyn cyflawni'r weledigaeth gyffredinol – sef gwella iechyd ein asedau naturiol yng Ngwent. Mae'r canlyniadau yma'n ymwneud yn benodol â

gwella dealltwriaeth, adeiladu capasiti a gwella cydnheredd ecosystem. Isod mae rhestr o'r canlyniadau:

- Gwella iechyd a chydnerthedd ein ecosystemau er mwyn rhoi'r cyfle gorau posibl i natur greu buddion o ran lles ar draws Gwent.
- Gwell dealltwriaeth o'r angen i warchod a gwella rhwydweithiau o gynefinoedd craidd a chefnogi cydgysylltedd ecolegol ar a rhwng ein 'safleoedd gorau' yng Ngwent
- Gwell gallu gan sefydliadau ac unigolion drwy sicrhau bod yr offer, y sgiliau a'r canllawiau angenrheidiol ganddynt i warchod a gwella ein rhwydweithiau o gynefinoedd craidd ar draws Gwent.

Mae ein Grŵp Gwaith Cysylltu ein Tirweddau wedi gweithio yn unol â'r amcanion yma er mwyn creu cyfres o gamau gweithredu a fydd yn fodd o wireddu'r weledigaeth o ran gwell cydnheredd ecosystem.

Mae'r pum awdurdod lleol yng Ngwent wedi cael grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Lles o £1.3 miliwn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiect rhanbarthol Gwent Fwyaf Cydnherth, a fydd yn cael ei arwain gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. Byddant yn gweithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol eraill Gwent (Torfaen, Caerffili, Casnewydd a Sir Fynwy), Cyfoeth Naturiol Cymru, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent, Buglife, SEWBRc, Technical Ecology a phartneriaid eraill ar draws Gwent Fwyaf. Mae'r gwaith wedi cynnwys ymuno â Datganiad Ardal De Ddwyrain Cymru, gwaith desg mewn paratoad at waith ar Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol yn 2020, Tipiau Glo, Bioamrywiaeth Trefol ac Afonydd yng Ngwent. Mae bid wedi ei wneud ar gyfer y rownd nesaf o gyllid GANLL er mwyn cyflawni rhai o gamau gweithredu Gwent sy'n Barod am yr Hinsawdd a chefnogi datblygiad adroddiad Sefyllfa Byd Natur Gwent Fwyaf.

Mae swyddogion sy'n gweithio i bum Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent yn gyfrifol am Bartneriaeth Grid Gwyrdd Gwent. Diben y bartneriaeth yw hwyluso cydweithredu rhanbarthol er mwyn gwneud y gorau o asedau naturiol Gwent a'r buddion pellgyrhaeddol y maent yn eu rhoi i'r cymunedau.

Sut mae pethau'n mynd?

Dangosyddion Cenedlaethol

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi 46 o [ddangosyddion cenedlaethol](#) sy'n chwarae rôl bwysig wrth fesur y cynnydd sy'n cael ei wneud yng Nghymru tuag at gyflawni nodau llesiant. Mae'r dangosyddion wedi cael eu defnyddio hyd yma yn Sir Fynwy i helpu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ddeall llesiant economaidd, cymdeithasol a diwylliannol o fewn y cynllun llesiant.

Er na fydd y dangosyddion cenedlaethol yn mesur perfformiad gwasanaethau cyhoeddus unigol na byrddau gwasanaethau cyhoeddus, mae'n rhaid iddynt gael eu hystyried gan y BGC i dracio'r cynnydd sy'n cael ei wneud yn erbyn y nodau llesiant, a defnyddio data lleol i fesur y cynnydd yn Sir Fynwy pan fydd hynny'n bosib.


Caiff y dangosyddion cenedlaethol sy'n arbennig o berthnasol i'n amcanion eu hamlygu yn y Cynllun Llesiant. Mae'r data diweddaraf ar gyfer y dangosyddion yma, lle mae diweddariad ar gael ar lefel sirol, i'w weld yn nhabl 1 isod. Gall cymharu'r data ar gyfer Sir Fynwy gyda'r data ar awdurdodau eraill sydd â nodweddion tebyg, fod yn ddefnyddiol. Mae cymhariaeth wedi ei gwneud yn seiliedig ar yr adnodd Data Cymru, Awdurdodau Cymaradwy, ar gyfer awdurdodau yng Nghymru ac mae'r newidynnau sydd wedi eu dewis yn ymwneud â'r pwnc y mae'r dangosydd yn ymwneud ag o. Nid oes data ar gael ar gyfer pob un o'r dangosyddion felly ni ellir gwneud y gymhariaeth ar gyfer pob dangosydd.

Fel y mae'r gweithgarwch i gyflawni camau'r cynllun llesiant yn datblygu, bydd metrigau perfformiad mwy penodol, sy'n berthnasol i'r cynllun yn cael eu canfod.

Mynegai Llefydd Llewyrchus

Yn 2018 cytunodd y pum Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o fewn rhanbarth Gwent ar y cyd i ddefnyddio adnoddau Cymunedau Hapus i fesur a deall llesiant eu poblogaeth. Mae un o'r adnoddau yma, y Mynegai Llefydd Llewyrchus, sy'n mesur amodau lleol ar gyfer lles cymunedau, yn parhau i gael ei ddefnyddio yng Nghymru.





Mae'r mynegai yn defnyddio nifer o ddangosyddion o ffynonellau data amrywiol er mwyn deall ac asesu'r amodau lleol ar gyfer llesiant. Yn dilyn gwaith cychwynnol yng Ngwent, mabwysiadodd Data Cymru'r adnodd a'i ehangu i gynnwys yr holl awdurdodau lleol ym mis Ebrill 2018. Rhyddhawyd y datganiad diweddaraf ym mis Ebrill 2020. Mae hyn yn creu darlun o ardal y gellir ei disgrifio'n gryno o dan dri pennawd eang – amodau lleol, cynaliadwyedd a chydaddoldeb; Mae dadansoddiad llawn o'r mynegai ar gael ar www.thrivingplaces.wales ac isod mae'r prif ganlyniadau o fynegai 2020 ar gyfer y meysydd yn Sir Fynwy.



Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn mesur Llesiant

Mae rhaglen Mesur Llesiant Cenedlaethol y Swyddfa Ystadegau Gwladol hefyd yn asesu lles personol fel rhan o Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth. Mae'r arolwg yn gofyn y cwestiynau canlynol:

- Boddhad gyda bywyd – Ar y cyfan, pa mor fodlon ydych chi gyda'ch bywyd ar hyn o bryd?
- Gwerth yr ymdrech – Ar y cyfan i ba raddau yr ydych yn teimlo bod yr hyn a wnewch mewn bywyd werth yr ymdrech?
- Hapusrwydd – Ar y cyfan, pa mor hapus oeddech chi'n teimlo ddoe?
- Gorbryder – gan ddefnyddio graddfa sydd â 0 yn gyfystyr â “ddim yn orbryderus o gwbl” a 10 yn gyfystyr â “gorbryderus trwy'r amser”





Mae'r canlyniadau ar gyfer Sir Fynwy (o 2018/19) o ran y cwestiynau rhain i'w gweld yn y graffiau isod, ochr yn ochr â chanlyniadau'r DU a Chymru. Dengys hyn bod ymatebion preswylwyr Sir Fynwy yn debyg iawn, neu ychydig yn uwch na phoblogaeth y DU a Chymru.

Pandemig COVID 19 a Les

Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith enfawr ar ein ffordd o fyw a'n lles. Bydd y BGC yn defnyddio'r dystiolaeth ddiweddaraf er mwyn deall effaith y pandemig ar les yn Sir Fynwy. Yn yr adroddiad blynyddol, rydym yn bennaf yn adrodd ar wybodaeth hyd at neu chyn Mawrth 2020. Mae gwybodaeth sy'n dod i'r amlwg nawr yn dangos rai o effeithiau'r pandemig, gweler rhai enghreifftiau isod.

Caiff nifer o'r dangosyddion cenedlaethol eu cynhyrchu yn flynyddol, ac ni fydd effaith pandemig Coronafirws wedi cael effaith ar y rhan fwyaf ohonynt. Er enghraifft, mae'r dangosydd cenedlaethol sy'n dangos y ganran o'r boblogaeth sydd mewn gwaith yn ffigur blynyddol, ac mae'r ffigur diweddaraf o fis Mawrth 2020. Mae'r ffigur yma'n dangos cynnydd bychan yn y gyfradd gyflogaeth yn Sir Fynwy yn 2019/20¹. Mae metrig a gyhoeddir yn fisol ar y nifer sy'n hawlio budd-dal di weithdra² yn dangos bod cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer yr hawlwr yn Sir Fynwy yn ystod pandemig Coronafirws ym mis Ebrill a Mai 2020.




Enghraifft o adnodd sy'n cofnodi safbwyntiau unigolion ar les o ganlyniad i bandemig Coronafirws (COVID-19) yw crynodeb wythnosol y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ar effaith Coronafirws ar fywyd bob dydd yn y Deyrnas Unedig. Mae'n cychwyn dangos cip olwg o effaith y pandemig ar les, er mae angen bod yn ofalus wrth ddefnyddio'r canlyniadau rhain ymhellach a gwneud cymariaethau ar hyn o bryd gan fod maint y sampl yn fychan. Mae'r canlyniadau mwyaf diweddar ar gyfer Cymru ar gyfer pedwar mesur yr ONS ar les personol (Ebrill 2020³) wedi eu cynnwys yn y graff isod fel enghraifft. Mae hyn yn dangos bod lleihad amlwg o ran sgoriau boddhad a hapusrwydd a chynnydd mewn gorbryder ar y pwynt yma.



¹ Arolwg Blynyddol y Boblogaet, ONS Survey <https://stats.wales.gov.wales/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Employment/Persons-Employed/employmentrate-by-welshlocalarea-year>

² Nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau <https://www.nomisweb.co.uk/>

³ Coronafirws a'r effeithiau cymdeithasol ar wledydd a rhanbarthau Prydain, ONS, Ebrill 2020 <https://www.ons.gov.uk/releases/coronavirusandthesocialimpactsonbritishregionsapril2020>



Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn cynnal arolwg ymgysylltu â'r cyhoedd, ac yn gofyn i'r cyhoedd sut y mae Coronafirws a mesurau rheoli cysylltiedig yn effeithio eu iechyd a'u lles. Dangosir rhai o'r cwestiynau, yn arbennig y rhai sy'n gysylltiedig â lles, isod hyd at yr wythnos ddaeth i ben ar y 7fed o Fehefin 2020⁴. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru'n cydnabod bod angen monitro yn y tymor hir er mwyn sefydlu tueddiadau. Lansiodd Iechyd Cyhoeddus Cymru ymgyrch newydd ar les er mwyn rhoi sylw i effeithiau negyddol COVID-19 ar les meddyliol, corfforol a chymdeithasol pobl Cymru www.phw.nhs.wales/news/public-health-wales-launches-new-covid-19-wellbeing-campaign/



Er y bydd angen gwneud gwaith pellach er mwyn deall yr effaith ar les yn y Sir, yn y tymor byr a'r tymor hir, dyma rai enghreifftiau o dystiolaeth ar yr effaith hyd yma ar les personol yng Nghymru. Bydd y BGC yn parhau i adolygu data a thystiolaeth ar lesiant yn Sir Fynwy ac adnabod ffyrdd addas o fesur er mwyn asesu'r newidiadau dros gyfnod o amser.

⁴ Iechyd Cyhoeddus Cymru, Sut mae pethau'n mynd yng Nghymru? Arolwg Ymgysylltiad Cyhoeddus ar Iechyd a Lles yn ystod mesurau Coronafirws, <https://phw.nhs.wales/>

Tabl 1: Dangosyddion Cenedlaethol	Ffynhonnell	Amcan cysylltiedig	Cymru	Meysydd cymaradwy tebyg	Sir Fynwy - blaenorol	Sir Fynwy - Cyfredol
Y ganran o'r oedolion sydd â llai na dau ymddygiad iach o ran eu ffordd o fyw (dim yn ysmegu, pwysau iach, yn bwyta pum ffrwyth neu lysieuyn y dydd, ddim yn yfed mwy na'r lefel a gynghorir ac yn gwneud ymarfer corff yn unol â'r canllawiau ar ymarfer corff)	Arolwg Cenedlaethol Cymru	Amcan 1 & 2	10% (2017/18 & 2018/19)	9% (Ceredigion) 11% (Gwynedd) 9% (Wrecsam)	7% (2016/17 & 2017/18)	6% (2017/18 & 2018/19)
Sgôr pwyntiau 9 cyfartalog wedi'i gapio y disgyblion (interim) (Cyflwynwyd y mesur hwn yn 2019, ac mae'n disodli'r hen fesur, sef sgôr pwyntiau 8 wedi'i gapio)	Cronfa Ddata Arholiadau Cymru	Amcan 1 & 4	354.4 (2019)	362.4 (Gwynedd) 382.5 (Ceredigion) 358.8 (Powys)	Ddim ar gael	367.4 (2019)
Gwerth Ychwanegol Gros am bob awr a weithir (o'i gymharu â chyfartaledd y DU)	ONS Dadansoddiad Economaidd Rhanbarthol: dangosyddion cynhyrchiant Is-ranbarthol	Amcan 4	83.3 (2018)	96.2 (Bro Morganwg a Chaerdydd)	87.1 (2017 - Sir Fynwy a Chasnewydd)	86.2 (2018 - Sir Fynwy a Chasnewydd)
Gwerth Ychwanegol Gros am bob awr a weithir (£) (Nid yw hwn yn ddangosydd cenedlaethol, caiff ei gynnwys fel cyd-destun pellach o ran y dangosydd "mewn perthynas â chyfartaledd y DU")	ONS Dadansoddiad Economaidd Rhanbarthol: dangosyddion cynhyrchiant Is-ranbarthol	Amcan 4	£29.2 (2018)	£33.7 (Bro Morganwg a Chaerdydd)	£29.9 (2017 - Sir Fynwy a Chasnewydd)	£30.2 (2018 - Sir Fynwy a Chasnewydd)

Tabl 1: Dangosyddion Cenedlaethol	Ffynhonnell	Amcan cysylltiedig	Cymru	Meysydd cymaradwy tebyg	Sir Fynwy - blaenorol	Sir Fynwy - Cyfredol
Incwm Gwario Gros Aelwydydd y pen	ONS, Incwm Gwario Gros Aelwydydd y pen	Amcan 4	£17,100 (2018)	£19,331 (Bro Morganwg) £18,295 (Powys) £16,249 (Gwynedd)	£20,761 (2017)	£21,707 (2018)
Y ganran o'r bobl sydd mewn gwaith .	Arolwg Blynnyddol y Boblogaeth, ONS	Amcan 4	73.7% (2020)	74.6% (Bro Morganwg) 77.6% (Powys) 75.4% (Gwynedd)	77.7% (2019)	79.5% (2020)
Y ganran o'r bobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn amddifadedd materol	Arolwg Cenedlaethol Cymru	Amcan 1, 2 & 4	14% (2018/19)	13% (Bro Morganwg) 10% (Powys) 12% (Gwynedd)	14% (2017/18)	9% (2018/19)
Y lefelau o lygredd nitrogen deuocsid (NO2) yn yr aer	Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig	Amcan 3	9 (2018)	6 (Sir Ddinbych) 5 (Ceredigion) 6 (Conwy)	8 (2017)	8 (2018)

Tabl 1: Dangosyddion Cenedlaethol	Ffynhonnell	Amcan cysylltiedig	Cymru	Meysydd cymaradwy tebyg	Sir Fynwy - blaenorol	Sir Fynwy - Cyfredol
Uchafswm (yn MW) yr offer ynni adnewyddadwy sydd wedi cael ei osod	Adran Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol	Amcan 2 & 3	3345.0 (2018)	148.3 (Sir Ddinbych) 187.3 (Ceredigion) 754.6 (Conwy)	84.9 (2017)	85.2 (2018)
Y ganran o'r bobl sy'n fodlon ar eu gallu i gyrraedd/ cael at y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.	Arolwg Cenedlaethol Cymru	Amcan 1, 2, 3 & 4	80% (2018/19)	78% (Sir Benfro) 65% (Ynys Môn) 63% (Gwynedd)	Ddim ar gael	79% (2018/19)
Y ganran o'r bobl sy'n fodlon ar yr ardal leol fel lle i fyw	Arolwg Cenedlaethol Cymru	Amcan 1, 2, 3 & 4	85% (2018/19)	90% (Sir Benfro) 89% (Ynys Môn) 89% (Gwynedd)	91% (2016/17)	92% (2018/19)
Y ganran o'r bobl sy'n gwirfoddoli.	Arolwg Cenedlaethol Cymru	Amcan 1, 2, 3 & 4	28% (2017/18)	2018/19 dim data ar gael	36% (2016/17)	2018/19 dim data ar gael
Y ganran o'r bobl sy'n cyfranogi mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos	Oedolion – Arolwg Cenedlaethol Cymru	Amcan 2 & 3	32% (2018/19)	34% (Ceredigion) 37% (Gwynedd) 30%	38% (2017/18)	38% (2018/19)

Tabl 1: Dangosyddion Cenedlaethol	Ffynhonnell	Amcan cysylltiedig	Cymru	Meysydd cymaradwy tebyg	Sir Fynwy - blaenorol	Sir Fynwy - Cyfredol
	Plant – Chwaraeon Cymru, arolwg chwaraeon mewn ysgolion	Amcan 1 & 3	47.6% (2018)	(Wrecsam) 52.5% (Ceredigion) 48.8% (Gwynedd) 44.2% (Wrecsam)	48.8% (2015)	45.0% (2018)

Camau Nesaf

Ni fydd adeiladu cymunedau cynaliadwy a chydnerth yn Sir Fynwy'n broses gyflym. Mae'r Asesiad Llesiant a'r Cynllun Llesiant yn fecanweithiau allweddol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o ran cyflawni hyn.

Wrth i'r cynllun barhau i gael ei gyflawni, gwyddom fod nifer o'r problemau a nodir o fewn y Cynllun Llesiant yn gymhleth, ac mewn sawl achos, bydd angen dadansoddiad manwl parhaus er mwyn sicrhau bod y BGC yn deall y problemau allweddol a'u bod yn ymateb yn y ffordd orau.

Bydd pandemig Covid-19 yn cael effaith ar les economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y Sir yn y tymor byr a'r tymor hir. Bydd y BGC yn defnyddio'r dystiolaeth ddiweddaraf sydd wedi ei chasglu a newid i ddeddfwriaeth a chanllawiau er mwyn deall effaith y pandemig ar les yn Sir Fynwy. Bydd y BGC yn parhau i weithio gyda phartneriaid lleol a rhanbarthol er mwyn datblygu ei weithgaredd mewn ymateb, byddant yn addasu/datblygu cynlluniau'r Bwrdd yn ôl y galw. Bydd unrhyw ddiweddariadau pellach i Gynllun Llesiant y BGC ar gael ar wefan Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy www.monmouthshire.gov.uk/our-monmouthshire/

Mae cynlluniau gweithredu manwl a threfniadau rheoli rhaglen yn cael eu datblygu ymhellach er mwyn cofnodi'r hyn a fydd yn cael ei wneud gan y partneriaid, y sefydliadau, yr unigolion a'r rhwydweithiau. Bydd y cynlluniau a'r trefniadau rhain hefyd yn dangos nad yw'n bosib i'r holl weithgareddau gael eu cyflawni ar yr un pryd – ac yn dangos na fydd angen yr un faint o adnoddau ac amser er mwyn cyflawni pob cam. Bydd angen trefnu'r gwaith â hyn mewn cof.

Bydd gweithio mewn partneriaeth drwy BGC Gwent yn parhau, a bydd y Tîm Datblygu Cymunedau a Phartneriaethau yn datblygu eu gwaith ymhellach gyda phartneriaid y BGC, Cyngorau Cymuned a Chynghorau Tref a phartneriaid cymunedol eraill sy'n rhan hanfodol o helpu i gyflawni'r Amcanion Llesiant.

Byddwn yn edrych ar greu cysylltiadau er mwyn gweithio mwy ar lefel rhanbarthol a fydd yn galluogi'r BGC i gael dealltwriaeth gliriach o'r rhyngwyneb rhwng gweithgorau, byrddau a strwythurau sy'n dylanwadu neu'n cael effaith, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ar y materion a nodir yn y cynllun llesiant.